

# ECO'R WYDDFA

## CANMLWYDDIANT YSGOL BRYNREFAIL

Rhan gyntaf atodiad arbennig  
y mis hwn – yr ail ran  
y mis nesaf

RHIF 272

TACHWEDD 2000

PRIS 40c

### Arddangosfa Neville

Bydd arddangosfa o waith gŵr lleol a fu farw dair blynedd yn ôl yn cael ei chynnal yn adeilad y Mynydd Gwefru dros yr wythnosau nesaf. A'r syndod yw bod cymaint o bobl heb wybod am ddawn arbennig y gŵr y dangosir ei waith ynddi.


Cymeriad tawel a swil oedd Neville Foulkes, ac nid un am dynnu sylw ato'i hun na'i waith. Ond fel y dengys yr arddangosfa hon yr oedd yn arlunydd medrus. Roedd hefyd yn gerflunydd, a gwelir enghreifftiau o'r wedd honno o'i ddawn hefyd yn ogystal â rhai cerddi a luniodd. Ceir gwerthfawrogiad o'i waith gan John Meirion Morris yn y rhifyn hwn.

Meddai un o drefnwyr yr arddangosfa, Ken Jones, Blaen Ddôl, 'Ganwyd Neville yn Snowdon View, Llanberis yr ail o bump o blant i'r diweddar Elwyn ac Elena Foulkes. Cafodd ei addysg yn Ysgol Dolbadarn ac yna yn yr hen Ysgol Ramadeg ym Mrynrefail. Er yn meddu'r ddawn a'r gallu roedd yn amlwg nad oedd ei fryd ar yrfa academiaidd, a gadawodd yr ysgol a mynd i drin y garreg las yn chwarel Dinorwig. Rhaid cofio nad oedd cyfle yn yr ysgol ganol y ganrif ddiwethaf i ddilyn gyrfa celf a chrefft, ac nid oedd colegau yn ymddiddori yn ei faes arbennig ar gael bryd hynny. Wedi dwy flynedd gyda'r fyddin yng Ngogledd

Affrica dychwelodd i Lanberis a'r chwarel. Mae gwaith y chwarel wedi dylanwadu arno ac fel y gwelwch caiff hyn ei adlewyrchu yn aml yn yr arddangosfa. Mae'n cynnwys rhan fechan o gasgliad helaeth o luniau a phob un ohonynt wedi ei



Rhiannon Roberts a'i mam, Mrs Ieuan James, a ddadorchuddion blac y canmlwyddiant.



Neville a'i nai, Siôn.

ddyddio, ffaith sy'n ychwanegu at arbenigedd gwaith Neville. Ymledai doniau Neville i faes barddoniaeth yn ogystal: cyfansoddodd nifer o gerddi grymus sy'n ymwneud â'i hiraeth am y chwarel a'r gymdeithas a oedd yn rhan mor annatod ohoni.

Roedd yn hoffus iawn a mawr yw'r golled ar ei ôl. Diolchwn am ei ddawn a'i grefft arbennig ac am ganiatâd Joyce a'r teulu i ddangos detholiad bychan o'i waith a chydabod hefyd ei ofal arbennig o'i nai a'i ffrind mawr, Siôn.

Bydd yr arddangosfa i'w gweld o Dachwedd 6 hyd Rhagfyr 23. Mynnwch y cyfle i werthfawrogi dawn artist lleol na chafodd hyd yma ei glod dyladwy.



# ECO'R WYDDFA

**RHIF 272  
TACHWEDD 2000**

*Argraffwyd gan Wasg Gwynedd  
Cibyn, Caernarfon*

*Cydnabyddir cefnogaeth  
Bwrdd yr Iaith Gymraeg  
i'r cyhoeddiad hwn.*

## SWYDDOGION A GOHEBWYR

### Golygyddol:

**JOHN PRITCHARD**  
CILFYNYDD, LLANBERIS  
Ffôn: (01286) 872390

**IWAN ROBERTS**  
LLEIFIOR, LLANRUG  
Ffôn: (01286) 675649

**Cadeirydd Pwyllgor Llywio:**  
**ARWEL JONES**  
**CAE EBONI, PENISARWAUN**  
Ffôn: (01286) 871274

E-bost: ecorwyddfa@AOL.com

### GOLYGYDD CHWARAEON

Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl, Bethel,  
(01248) 670115

### DYDDIADUR Y MIS

Mrs Margaret Cynfi Griffith, Cynfi,  
Deiniolen (870394)

### FFOTOGRAFFWR

Gwynhaf Hughes, Glasgoed,  
Llanrug (677263)

### TREFNYDD HYSBYSEBION

John Roberts, Bedw Gwynion,  
Llanrug (675605)

### TREFNYDD BWNDELU

Jean Jones, Cesail y Mynydd,  
Deiniolen (871550)

### TREFNYDD ARIANNOL

Goronwy Hughes, Eithinog, 14 Afon  
Rhos, Llanrug (674839)

### TREFNYDD GWERTHANT POST

Mrs Olwen Llywelyn, Pant Afon Bach,  
Llanrug (650200)

### TREFNYDD PLYGU

Shioned Griffith (650570)

### GOHEBWYR PENTREFI

**BETHEL:** Geraint Elis, Cilgeran  
(01248 670726)

**BRYNREFAIL:** Mrs Lowri Prys Roberts-  
Williams, Godre'r Coed (870580)

**CAEATHRO:** Clive James, Hafan, Bryn  
Gwna (677438)

**CEUNANT:** Trystan a Sioned Larsen,  
Bodafon, Ceunant (650799)

**CWM-Y-GLO:** Mrs Iris Rowlands,  
Glanrafon (872275)

**DEINIOLLEN:** W. O. Williams,  
6 Rhydfadog, Deiniolen (871259)

**DINORWIG:** Marian Jones, Minallt,  
7 Bro Elidir, Dinorwig (870292)

**LLANBERIS:** Gwyneth ac Eifion  
Roberts, Becws Eryri (870491)

**LLANRUG:** Eryl Roberts, 3 Bryn  
Moelyn (675384)

**NANT PERIS:** Llinos Jones, 6 Nant Ffynnon  
(871820)

**PENISARWAUN:** Mrs Ann Evans,  
Sycharth (872407)

**TAN-Y-COED:** Miss Anwen Parry,  
Ael-y-Bryn (872276)

**WAUNFAWR:** Mrs Nan Roberts,  
Pantafon, Waunfawr (650570)

### Y RHIFYN NESAF

Deunydd i law'r  
golygyddion perthnasol

**TACHWEDD 20**

Daw'r rhifyn nesaf o'r wasg

**TACHWEDD 30**

Os gwelwch yn dda

# DYDDIAD A LLEOLIAD PLYGU'R ECO

Trefnydd Plygu: Mrs Shioned Griffith, Pantafon, Waunfawr, (01286) 650570

| Rhifyn  | Dyddiad Copi | Dyddiad Plygu | Ble      | Cysylltu A            |
|---------|--------------|---------------|----------|-----------------------|
| RHAGFYR | TACHWEDD 20  | TACHWEDD 30   | CAEATHRO | Mr Clive James 677438 |

*Llythyr*

## CHARLES OWEN

Annwyl Olygydd,

Rai wythnosau yn ôl cyflwynodd Arwel Jones, un o Hogia'r Wyddfa, raglen am ardal Llanberis ar y teledu. Yn ystod y rhaglen, cyfeiriwyd at chwarelwr o'r pentre a fu'n arwain côr cymysg Llanberis am flynyddoedd maith. Yn anffodus, ni ddywedwyd pwy oedd y gŵr amryddawn yma a fu'n gymaint o ddylanwad ar ganu corawl yr ardal. Mr Charles Owen, Thomas Street, Llanberis oedd o.

Er na chafodd unrhyw addysg ffurfiol mewn Cerddoriaeth, meddai ar ddawn unigryw i ddehongli a chyflwyno'n gaboledig,

weithiau clasurol fel yr oratorios a berfformid yn flynyddol gan y côr yng Nghapel Coch, Llanberis.

Dan arweiniad Charles Owen, cafodd rhai o aelodau'r côr y cyfle, o bryd i'w gilydd, i amlygu eu doniau a chymryd rhan fel unawdwyr yn y cyngherddau. Soniodd Arwel Jones am ei fam yn dod i'r adwy ar fyr rybudd ar un tro ac yn cymryd rhan y contralto. Cofiaf innau'r achlysur yma'n dda. Yn anffodus i'r arweinydd, gorfu i'r unawdwyr soprano a'r contralto dynnu'n ôl o achos salwch ar y funud olaf. Llanwyd y bwlch gan ddwy aelod o'r côr oedd yn fwy na theilwng i gymryd eu lle, sef Mrs Katie Jones, mam Arwel a Mrs Winnie Owen, y soprano, merch yng nghyfraith i'r arweinydd. Bu'r cyngerdd yn llwyddiant mawr a chofiaf ofyn i Charles Owen a oedd wedi cael ei blesio. Ei ateb oedd: 'Pe byddai'r ddwy gantores broffesiynol wedi troi i fyny,

fydden nhw ddim wedi canu'n well na'r ddwy o'r pentre.'

Dan ei arweiniad, bu côr cymysg Llanberis yn fuddugol yn yr Eisteddfod Genedlaethol dair gwaith ac roedd galw mawr amdano ledled y gogledd i feirniadu ac i arwain cymanfaoedd. Cerddoriaeth gorawl a chapel Nant Padarn oedd bywyd Charles Owen a rhoddodd o'i amser a'i dalentau'n ddi-rwngach i hybu bywyd cerddorol ardal Llanberis. Yn ei oes, bu'n un o bileri'r gymuned ac roedd ei gyfraniad tuag at fywyd diwylliannol yr ardal yn amhrisiadwy.

Dyma lun o'r côr pan enillon nhw'r wobr gyntaf yn Eisteddfod Genedlaethol Caernarfon 1935. Y cyfeilydd oedd Aled Owen, un o feibion yr arweinydd, yntau hefyd yn gerddor medrus a ddilynodd ei dad fel arweinydd y côr.

Gyda pharch a chofion,  
Un o'r teulu



## GLANHAWYR CARPEDI a POLSTRI

**BRYNGWYN**

Glanhau i fusnesau a chartrefi

**Keith Rees Hughes**

**1 Cae Newydd, Llanrug**

(01286) 674416 neu (07880) 847161

YSGOL GWAUNGYNFIYN CYFLWYNO

**CELT**

GYDA

**ARIAN**

YN

**CLWB Y FELIN**

**FELINHELI**

AR

**TACHWEDD 17 2000**

am 8 o'r gloch, £6 y Tocyn

i'w gael o Ysgol Gwaun Gynfi  
(01286) 870687

Neu wrth ffonio (01286) 870802 / 871134

Pobol Dros 18 yn unig



## Bwllis a Bradwyr yn Amgueddfa Lechi Cymru, Llanberis (Medi 26 - 29)



Mrs Brenda Wyn Jones gyda phlant Ysgol Gynradd Llanrug.

Ni ddylech chi fyth farnu llyfr yn ôl ei glawr, medd yr hen air Saesneg, ond dyna'n union beth oedd rhai plant yn ei wneud yn ystod prosiect arbennig yn Amgueddfa Lechi Cymru yn ddiweddar.

Fel rhan o brosiect llenyddiaeth arbennig a oedd yn derbyn cymorth gan ACADEMI, y gymdeithas genedlaethol a ffurfiwyd i hyrwyddo llenyddiaeth yng Nghymru, roedd Brenda Wyn Jones o Dre-garth yn cynnal gweithdai yn nhai'r Chwarelwyr i geisio esbonio i blant ysgol sut y datblygodd y nofel 'Bwllis a Bradwyr' a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan Wasg Gwynedd, Caernarfon.

Roedd y gweithdai yn cynnwys sesiynau holi ac ateb gyda'r awdures ynghyd â chyfle i weld sut yr aeth ati i geisio dadansoddi gwybodaeth o hen lyfrau log ysgolion o'r cyfnod i greu ei nofel. Roedd grwpiau hefyd yn edrych ar y dyluniadau ar gyfer y clawr gan yr arlunydd o Fôn, Jac Jones, a oedd hefyd yn gyfrifol am yr arlunwaith yn y gyfrol ei hun.

Mae'r nofel wedi'i seilio ar Streic Fawr Chwarel y Penrhyn, o 1900 i 1903, ac mae'n adrodd

yr hanes o safbwynt plentyn. Yn ystod y Streic (neu'r Cloi Allan) rhoddodd bron i 3,000 o ddynion y gorau i'w gwaith mewn gwrthwynebiad i amodau llym perchennog y Chwarel. Cafodd hyn effaith andwyol ar yr ardal a symudodd llawer o bobl i gymoedd glo De Cymru.

Erbyn mis Mehefin 1902 roedd 700 o ddynion wedi dychwelyd i'r gwaith. Cawsont eu galw'n FRADWYR a chreodd hyn hollt yn y gymuned a chasineb rhwng teuluoedd a fu'n gymdogion ers blynyddoedd.

'Fis Tachwedd eleni bydd can mlynedd wedi mynd heibio ers dechrau'r Streic, un o'r gwrthdrawiadau diwydiannol hwyaf yn hanes Prydain,' meddai Celia Wyn Parri, Swyddog Addysg yr Amgueddfa. 'Gan fod un o'r tai chwarelwyr a ailgodwyd yn yr Amgueddfa wedi'i ddodrefnu yn arddull 1901 i adlewyrchu bywyd yng nghanol y streic, roeddem yn meddwl y byddai'r prosiect hwn yn ehangu dealltwriaeth plant o sut mae nofel yn cael ei chreu ac yn eu helpu i ddeall yn anawsterau yr oedd plant y cyfnod yn eu hwynebu.'

## Ymddeol o'r Ysgol



Yn ddiweddar ymddeolodd Betty Roberts o'i swydd yn Ysgol Brynrefail. Bu'n gweithio yno am ragor na 30 o flynyddoedd fel glanhawraig, a gofalu-wraig dros dro ar un cyfnod. Gwelodd llawer o fynd a dod, ac mae wedi gweithio i bedwar prifathro: Mr David Jones, Mr Elfyn Thomas, Mr John Grisdale a Mr Eifion Jones. Dymuniadau gorau iddi oddi wrth bawb sy'n ei chofio yn yr ysgol.

## DRAENOG

Ydach chi'n cofio 'Roger, the Dodger' mewn comic ers talwm? Mae 'na rywun go debyg iddo mewn gwesty yn Llanberis. Pan ofynnodd cwsmer iddo am 'cheesburger' rhoddodd y gŵr ddarn o gaws mewn rôl bara iddo. Wydda fo ddim bod angen byrger efo'r caws.

## Ffair Gaeaf Amgueddfa Lechi Cymru Llanberis

Tachwedd 25 a 26  
1pm - 5pm



48 Stryd Fawr Llanberis  
Gwynedd Cymru LL55 3EU  
Ffôn: + 44 (0) 1286 872777  
Ffacs: + 44 (0) 1286 872778  
annette@peris.co.uk  
www.peris.co.uk

- \* Gwasanaeth effeithlon a chyfeillgar
- \* Gwyliau wedi eu teilwra i ateb anghenion yr unigolyn, teuluoedd neu grwpiau
- \* Penwythnosau yn theatrau Llundain
- \* Y pecyn cyflawn, h.y. bws-mini o ddrws y tŷ, trefniadau hedfan, gwesty neu apartment, llogi car, ac yswiriant
- \* Arbenigedd mewn trefnu teithiau tramor i gorau ac i ysgolion
- \* Bargeinion munud olaf
- \* Teithiau tramor gyda chantorion o Gymru

Am fanylion pellach, ffoniwch: Annette neu Bethan

## E. W. Pritchard CENTRAL GARAGE Llanberis

Ffôn: (01286) 870202 a 870272

TREFNWYR ANGLADDAU  
CEIR AR GYFER PRIODASAU  
GWASANAETH TACSI

## PRYD I BAWB Bwffe blasus o safon at bob achlysur

- cinio busnes
- bedydd
- pen-blwydd
- te angladdau

CERID MACKINNON  
(01286) 673190





# O SIAMBAR SELWYN

Mi ges i'r fraint yn ystod y mis yma o feirniadu'r llên a'r adrodd yn Eisteddfod Marianglas, Ynys Môn unwaith eto. Mae hon yn un o'r Eisteddfodau yr ydw i wedi bod ynddi droeon, fel cystadleuydd ac fel beirniad, dros gyfnod helaeth o flynyddoedd.

Da gweld fod Eisteddfod Gadeiriol Marianglas wedi ail gychwyn eto o dan gadeiryddiaeth Dewi Jones, a gafodd gymaint o lwyddiant fel Cadeirydd y Pwyllgor Gwaith pan ymwelodd y Brifwyl â'r Ynys yn 1999.

Yn naturiol, o ymweld â'r Eisteddfod heddiw rwy'n gweld colli nifer o ffyddloniaid a fu mor selog i'r Eisteddfod hon dros y blynyddoedd. Rhai fel *Telynfab* (tad y Prifardd Einir Jones a enillodd y Goron Genedlaethol ym Mro Delyn 1991.) *John Williams Llanerchymedd* a'i briod. Dyna i chi eisteddfodwr: John Williams yn mynd yr holl ffordd o Fôn i Eisteddfod Casnewydd i gael ei urddo - ia mewn tacsî. Chwith ydi gweld cornel *Elen Roger Jones* yn wag hefyd. Roedd hi bob amser yn rhoi hyder i brentis o feirniad di-brofiad fel fi drwy ddweud, 'Cytuno hefo chi ym mhob cystadleuaeth,' prun a oedd hi ai peidio. Melys a hiraethus yw'r cof am yr hen ffyddloniaid annwyl hyn.

\*\*\*

Cafwyd nifer o gystadlaethau diddorol yn yr adran lenyddol eleni. Testun y Gadair oedd: Cerdd rydd ar y testun *Ynys*. Fe fentrodd 8 ac fe ddigwyliciech i amryw ganu am Ynys Môn. Na, dim ond un a ganodd glodydd y Fam Ynys. Cafwyd amrywiaeth diddorol, o Ynys Iona yn yr Alban i Ynys Afallon. O un o ynysoedd dychmygol y môr-ladron i Ynys Tahiti.

Mae'n syndod sut mae testun yn arwain y beirdd i wahanol gyfeiriadau. Do, fe gafwyd cystadleuaeth ddiddorol iawn,

a'r safon yn gwbl deilwng o Eisteddfod Marianglas. Roedd y gerdd fuddugol yn arbennig. Hanes hynt a helynt yr artist Ffrengig *Paul Gauguin*, yn cael ei ddenu i Ynys Tahiti at y bywyd cyntefig, anwaraidd. Gŵr a deimlai fod y bywyd cyntefig yn fwy tangnefeddus. Hyfrydwch i mi hefyd oedd canfod mai y gŵr a gododd ar ei draed i ateb i'r ffugenw *John Davies* oedd neb llai na'r llenor a'r cyn-gynghorydd, a chyn-ddarlithydd i mi yn y Coleg Normal sawl blwyddyn yn ôl bellach - *John Lasarus Williams* o Lanfairpwll. Hyfrydwch pur oedd cael ei gadeirio.

Cystadleuaeth ddiddorol oedd Triban beddargraff i'r *Glanhawr Simnai*. Dyma rai:

Medd Pedr yn garedig:  
'Rôl gyrfa'n llawn o huddug,  
Cei fyned fry a'thy gannu'n wyn  
Ymhlith y gwynfydedig.'

Mae Jac y Do yn gwenu  
O glywed am dy gladdu,  
Hen chwalwr nythod du dy wedd  
Yn gorwedd yma'n pydru

Am iddo hir drybaeddu  
O'i ben i'w draed mewn parddu,  
Mae 'Gwyn eu byd' ei garreg fedd  
Yn wledd o gam ddyfynnu

Amserol hefyd oedd gosod cystadleuaeth cyfansoddi *Chwe*

*Dihareb Gyfoes*. Cynildeb dihareb yw ei chryfder wrth gwrs. Doedd yna fawr o gynildeb yn hon - ond digon o wirionedd reit siwr.

'Pan yn dreifio, gwell cadw dy ddwylo ar yr olwyn nag ar benglin dy gydymaith, byddi'n sicrach o gyrraedd dy nod felly.'

Yr un cyfaill dywedodd:

'Cyn cychwyn ar daith gwna'n siŵr fod gennynt injian dan y boned.'

Mwy cynnil yw:

Rhad pleidlais, - drud cyfraniad.

Cyfoeth ffermwr, - gwraig mewn swydd.

Daw drycin wedi hindda.

Hawdd gwario pres y loteri.

Prin plisman ar gornel stryd.

Gwell plisman ar stryd na dau mewn Panda.

Gofynnwyd am bennill telyn ar y testun *Blwyddyn Naid*:

Gan fod gennyf hawl eleni  
Gofyn wnes i Huw fy mhriodi  
Ond cael braw a wnaeth yr hogyn  
Welais i mohono wedyn.

Hon oedd orau gen i:

Wedi disgwyl pedair blynedd  
Byr fy nhymer a f'amynedd,  
Fe ddioddefodd Dai sawl cernod  
Gan yr 'Eneth Gadd ei Gwrthod'.

Wrth gwrs, rhaid gorffen limrig ym mhob Eisteddfod. *Gofynnodd Myfanwy i Tomi* - dyna oedd y linell osodedig.

Dydio'n rhyfedd fod y mwyafrif yn mynd ar yr un trywydd. Dyma rai:

Gofynnodd Myfanwy i Tomi  
'Wyt ti'n gêm heno i wneud babi?'  
'It's a deal,' meddai ef  
Gydag andros o lef  
'Os doi di i'r gwely reit handi.'

*Yr Ehedydd Bach*

A dyma gynnig *Deagnosis*

Gofynnodd Myfanwy i Tomi  
'Beth amdani? Beth am briodi?'  
Mae hi'n flwyddyn naid  
Ac mae'n fater o raid  
Mae'r sganiwr yn dangos tri babi.

Does 'na weledigaeth a dychymyg byw mewn ambell i ffug-enw? Mae 'na wledd i'w chael o fynd o Steddfod i Steddfod hefyd, coeliwch fi, a chyfarfod a hen ffrindiau.

\*\*\*

O.N. Beth am eich ymateb i'm cais am gael benthycu copi o'r Bryddest 'Rownd yr Horn'. Cefais ymateb o bell ac agos. Y pella, oddi wrth Emrys Owen o Solihull, a'r agosa gan Lowri Prys o Frynrefail. Fe alwa i rownd i fanteisio ar garedigrwydd Lowri, cyn mentro Rownd yr Horn. Diolch i bawb.

## DRAENOG



Gwyliau Gwilyb  
Aeth gŵr a gwraig o Ddeiniolen  
I ffwrdd am dipyn o hamdden,  
Fe gododd o'i gwely yn socian  
A rhoddodd y dillad i hongian.  
O diar, Glyn bach, be 'na i?  
Mi fyddaf yn siwr o gael ffrau  
Di'r botel ddŵr ond hanner llawn  
Wnaiff o ddim sychu tan y prynhawn  
Wel, chwarddodd Glyn, Ha, ha, hi,  
hi  
Mae'n rhaid dy fod wedi pi pi.

Cefnogwch  
ein  
Hysbysebwyd

**GWYN JONES**  
**FFENESTRI ERYRI**  
**GARTH ISAF, LLANRUG**  
**(01286) 650764**

neu W. G. Roberts (Wil Korea) 676741

★ Ffenestri ★ Drysau ★ Drysau Patio



12 MLYNEDD O BROFIAD YN Y MAES

★ Porches  
★ Byrddau Ffasia  
★ Cladio  
★ Conserfateris

+

**J.M.  
JONES**  
**A'I FEIBION**  
**GWAITH  
CERRIG  
BEDDAU**

**Y SGWÂR  
LLANRUG**

Crefftwyr gwaith  
llaw traddodiadol

Cerrig o bob  
math ar gael

**Ffôn: (01286)  
672898 (dydd)  
676285 (nos)**

**Bistro**  
**LLANBERIS**  
**Ffôn 871278**

Perchnogion: DANNY A NERYS ROBERTS

A HEFYD  
COFIWCH AM EIN  
**BeliBistro**  
Ffoniwch am fanylion

Cofiwch am nosweithiau arbennig Y BISTRO  
nos Wener olaf pob mis



Un funud fach...

### PRESANT DOLIG

Daeth yr amser i feddwl am anfon yr anrhegion Nadolig Ymgyrch Plentyn y Nadolig eto. Mae *Operation Christmas Child* wrthi ers blynnyddoedd bellach yn gofalu bod yna filoedd lawer o blant mewn gwledydd fel Bosnia, Croatia, Serbia, Romania a'r cyn wledydd Sofietaidd yn cael anrhegion Nadolig oddi wrth blant ac oedolion yng Ngwledydd Prydain. Mae'r elusen yn gobeithio gallu anfon hyd at filiwn o focus esgidiau yn llawn o anrhegion.


Mae cyfle i gefnogi'r ymdrech yn lleol unwaith eto, ac os oes unrhyw un yn awyddus i anfon bocs yn rhodd i blentyn bach, cysylltwch â mi yn y cyfeiriad isod. Mae taflen arbennig ar gael sy'n egluro'n union y math o bethau y gellir eu rhoi yn y bocs. Yr un mor bwysig, mae'r daflen yn dweud beth na ddylid ei roi ynddo. Y pethau mwyaf amlwg na ddylid eu cynnwys yw teganau sy'n ymwneud mewn unrhyw ffordd â rhyfela. Mae gwn a thanc yn fygythiad gwirioneddol i lawer o'r plant bach a fydd yn derbyn y bocsus hyn yn flynyddol.

Bydd yr holl focus a gesglir yn cael eu hanfon i bencadlys yr elusen yn Wrecsam, ac oddi yno anfonir hwy i'r gwahanol wledydd. Bydd prysurdeb mawr yn Wrecsam o hyn i'r Nadolig wrth i'r cyfan gael eu pacio'n barod i'w hanfon. Os oes gennych ddiwrnod i'w sbario, ac awydd mynd am dro i Wrecsam i weithio am awr neu ddwy, byddai croeso mawr i chi ymuno â'r criw o wirfoddolwyr sy'n gofalu am yr holl bacio. Mae'r daflen arbennig yn cynnwys rhif ffôn y mudiad os byddech am drefnu i fynd draw.

Diolch eleni eto i'r ysgolion a'r eglwysi lleol sy'n hybu'r ymgyrch. Maent wedi casglu miloedd o focus dros y blynnyddoedd, a bydd rhai cannoedd yn cael eu hanfon o'r fro eleni eto mae'n siŵr.

Byddwn yn falch o glywed gennych os oes arnoch angen taflen sy'n cynnwys label pwrpasol i'w osod ar y bocs. Os nad oes neb yn casglu'r bocsus yn eich pentref chi, byddwn yn falch o'u derbyn gennych erbyn dydd Gwener, Tachwedd 10.

JOHN PRITCHARD  
Cilfynydd, Llanberis  
(01286) 872390



Golygfa ryfedd oedd honno pan aeth gwraig i'w gwaith yn ei choban. Pwyll bia hi tro nesa', Linda!

## NANT PERIS

Ann Cumberton, Gwastadnant (870356)

Camera yn ngofal John Pritchard, Cilfynydd, Llanberis. Ffôn: 872390

DIOLCH. Dymuna Prydwen Pritchard, Llys Awel, ddiolch yn fawr iawn am yr holl gardiau a'r anrhegion a dderbyniodd ar achlysur ei phen-blwydd yn 60, yn enwedig i'r plant, David, Iwan, Sian ac Alan am drefnu gwyliau bythgofiadwy yn Tenerife.

DIOLCH. Hoffai Alan Pritchard, Llys Awel gynt, ddiolch i bawb am eu haelioni ddiwedd Awst pan oedd yn dathlu deng mlynedd ers ei drawsblaniad yn Ysbyty Harefield, Llundain.

DYMUNIADAU GORAU i Owain, Sam a'r plant yn eu cartref newydd yn Llangefni - pob hapusrwydd i chi fel teulu.

BEDYDD. Ar Hydref 8 bedyddiwyd Aaron Gwynant, mab Bedwyr a Helen (Tŷ Isa) yng Nghapel Rehoboth gan y Parch John Pritchard. Y rhieni bedydd oedd Elgan a Gwyneth Metcalfe - diolch i bawb am wneud y diwrnod yn un cofiadwy.

### PEIDIWCH A GORI AR STORI

anfonwch hi i  
*Eco'r Wyddfa*



Plant Ysgol Sul Capel Cysegr adeg y Diolchgarwch.

CARNIFAL. Mewn pwyllgor diweddar penderfynwyd cyfrannu canran o'r elw a wnaethpwyd yn y carnifal eleni tuag at Uned MacMillan, Ysbyty Bryn Seiont,

Caernarfon. Cynhelir Parti Nadolig y pentref ar nos Wener, Rhagfyr 8 yn Nhy'n Llan - dosberthir y gwahoddiadau yn y man.

### OSMOND SHAW DEINIOLLEN

GWERTHU  
- TRWSIO

★ Teledu ★ Fideo  
★ Offer Trydan

Gwasanaeth Ffôn 24awr  
(01286) 870545

### CHIROPODIST

Gwasanaeth  
yn eich cartref

**E. Ll. Parry**

M.S.S.Ch., M.B.Ch.A.

57 Glanffynnon  
**LLANRUG**

Ffon:

(01286) 675754

### GARTH MAELOG

#### PET CENTRE AND GROOMING SALON

Bwyd ac anghenion  
Anifeiliaid anwes  
a physgod.  
Offer pysgota



Molchi, cribo a chlipio  
cŵn a chathod  
o bob math  
gan arbenigwyr

**STRYD FAWR, LLANBERIS 870840**



# CHWILOTA

## Cystadleuthau Holli a Naddu.



Mae gwybodaeth am y cystadleuthau holli a naddu llechi yn parhau i ddod i law. Gyda llaw, mae'n ymddangos mai 'primin' oedd y term a ddefnyddid arnynt gan y chwarelwyr. Tybed a ddaeth y term hwn i'r chwarel gan rai o drigolion Môn?

Anfonwyd y llun o'r cwpan gan Huw Roberts, Pwllheli, yn dilyn sgwrs fer ar noson hel atgofion Ysgol Brynrefail. Fe'i henillwyd gan ei dad, a adnabyddid fel Dafydd 'rHelfa'; brodor o Lanberis. Cyflwynwyd y cwpan yn wobwr am holli a naddu ym Mhrimin Deiniolen, a châl pwy bynnag a enillai'r gystadleuaeth dair blynedd yn olynol, gadw'r cwpan am byth. Mae Huw Roberts yn credu i'w dad ei hennill rhywdro wedi diwedd y Rhyfel Byd Cyntaf, oherwydd roedd y cwpan ar yr aelwyd yn Llanberis erbyn 1921. Yn ôl yr hanes, doedd hogia Deiniolen ddim yn awyddus iawn gweld y cwpan yn diflannu o'r pentref i Lanberis, a bu'n rhaid i Dafydd 'rHelfa sleifio o'r Primin drwy Goed yr Allt Ddu i osgoi llid hogia Llanbabo!

Mae'r cwpan bellach wedi ei hadfer i'w chyflwr gwreiddiol, ac yn mesur dros droedfedd a hanner o uchder.

Daeth gwybodaeth hefyd gan 'Hen Chwarelwr' o Ddeiniolen am gystadleuthau a gynhelid ar Gae'r Ddôl yn Llanberis. Mae yntau'n cadarnhau mai 'primin' oedd yr enw a ddefnyddid ar y cystadleuthau hyn. Dyma ddisgrifiad ganddo o'i hanes yn cymryd rhan mewn un o'r cystadleuthau olaf i'w cynnal yn Llanberis yn ystod y 1950'au.

'Yng nghystadleuaeth y 'primin' roedd amodau a rheolau arbennig. Roedd clwt pob cystadleuydd wedi ei lifio i fesur 20 x 10 modfedd yn barod, a phob clwt

o'r un trwch. Yn groes i'r drefn arferol roedd amodau'r gystadleuaeth hon yn gofyn i'r holltwr dynnu pymtheg o grawiau yn hytrach na'r un ar bymtheg arferol, ac roedd hyn felly yn rhoi llawer mwy o brawf ar ddawn a chreffft yr holltwr. Wyth munud o amser yn unig a ganiateid i holli a naddu, ac roedd yn rhaid i bob crawen fod yn berffaith sgwâr ac o'r un trwch.

Yn y cyfnod dan sylw, roeddwn yn gweithio yn Sied Pont Braich Isa', ac yn un o wyth a weithiai mewn bagen. Ychydig wythnosau cyn Primin Llanberis gofynnwyd i mi gynrychioli'r Sied. Braidd yn anfodlon oeddwn, ond wedi dipyn o berswâd, cytunais. (doedd hi ddim yn hawdd dweud 'na' wrth y rhai a fu'n eich hyfforddi)

Yn naturiol roedd angen ymarfer ar gyfer y primin, ac yn brydlon am dri o'r gloch bob p'nawn, byddai gweddill y Sied yno gyda'u 'stop-watch' yn gwylio drosod ac yn gwneud yn siwr fod fy amseru'n berffaith.

Profiad bythgofiadwy (ac ofnus) oedd mynd i Lanberis y diwrnod hwnnw, a rhaid cyfaddef i mi fod bron iawn a throi'n ôl wedi gweld y dorf ar Gae'r Ddôl. Mi gefais hwyl di-fai ar yr holli a'r naddu y diwrnod hwnnw, a hynny o fewn yr wyth munud. Doedd dim i'w wneud wedyn ond disgwyl am y dyfarniad. Ni chofias pwy ddaeth yn gyntaf, ond cefais ail wobwr dair punt, ac euthum adref yn hapus gan fod hynny'n arian da bryd hynny.

Tybed pwy ddaeth yn gyntaf a thrydydd y diwrnod hwnnw?"

Diolch i 'Hen Chwarelwr' am rannu ei atgofion. Byddai'n ddiddorol cael mwy o hanesion gan eraill a fu'n cystadlu yn Llanberis neu yn rhai o'r cystadleuthau eraill. Oes rhywun yn fodlon honni mai hwy oedd enillwyr y 'primin' yn Llanberis? Ac ai gwobrau



Cwmni Drama Brynrefail yn y 1920'au ar Greigiau Brynrefail. Dyma rai enwau (Yn sefyll, ail o'r chwith yn y cefn): Owen Williams, Adwy'r Dŵr. (Trydydd o'r chwith yn y cefn): Tommy Williams, Llwyn Coed. (Yn sefyll ym mhen y rhes ar y dde): Edward Thomas. (Yn eistedd, ail o'r chwith yn y blaen): William Williams, Adwy'r Dŵr. (Yn eistedd, ail o'r dde yn y blaen): Mary Parry, Ty'n Twll.



Cwmni Drama Brynrefail yn y 1940'au cynnar. (Enwau o'r chwith i'r dde, cefn): Owen Foulkes, Bill James (athro cerdd yn Ysgol Brynrefail), Richard Williams, Bryn Parc; Y Parch D. W. Davies, W. F. Williams, Post; Owen Namur Jones. (Blaen): Elizabeth M. Roberts, Tai'r Felin; Mrs J. Roberts, Jennie Arfon Jones, Mrs Foulkes, N. Maud Jones, 'Rallt; Maggie Roberts, Bryn Madog.

ariannol yn unig oedd yn cael eu cynnig erbyn hynny yn hytrach na chwpanau?

Cefais hefyd sgwrs ddiddorol gyda J. Myrddin Williams o Lanrug, a fu'n gweithio ym Mhenc Hafod Owen. Ni fu erioed yn cystadlu ar yr holli a'r naddu, ond roedd o'n un o'r chwarelwyr a oedd yn paratoi'r blociau 20 x 10 modfedd ar gyfer y cystadleuthau. Roedd honno hefyd yn grefft ynddi ei hun, oherwydd roedd yn rhaid i'r blociau fod yn union gyfartal

er tegwch i bob cystadleuydd yn y 'primin'. Y Stiward Gosod yn ystod y 1930'au oedd W.O.Ellis o Fethel, ac y mae Mr Williams yn cofio iddo unwaith gael gorchymyn ganddo i baratoi bloc go arbennig. Roedd angen bloc 20 x 10 modfedd i'w arddangos yn Nottingham. Nid yw Mr Williams yn siwr iawn pam fod arddangosfa yn cynnwys blociau holli a naddu yn cael ei chynnal yn y ddinas honno, ond y fo gafodd y gwaith o baratoi'r bloc oedd yn

**GWASANAETH NEWYDD AR GYFER**  
**PARTÏON : PRIODASAU : PEN-BLWYDD**  
**BEDYDD : DAWNS : GWYLIAU . . .**

**RHOSTIO**  
**MOCHYN**



**AR GYFER POB ACHLYSUR**

- ★ Cig o ffermydd lleol
- ★ Partïon rhwng 40 a 400!
- ★ Gyda saws afal a stwffin
- ★ Efo salad hefyd os dymunwch

**DEWCS, MAE O'N FLASUS!**

Cysylltwch â

**JOHN BRYNAFON, LLANRUG**  
**Y DYN CIG ar 675190 / 673188**

**GWYNETH ROBERTS**

**84 Stryd Fawr, Llanberis**

**Ffôn: 870491**

CAFFI 'BWYTY ERYRI'  
TEGANAU, CARDIAU  
MELYSION  
ANRHEGION



Bara Ffres  
Teisennau  
Priodas, Bedydd  
Pen-blwydd ac ati  
Peis, Rholiau Sosej  
Pasteiod, Teisennau Hufen  
Teisennau Plât, Torth Gyrains ac ati

**BECWS ERYRI**

**Stryd Fawr, Llanberis 870491**





Y Cwpan a enillwyd am hollti a naddu llechi ym Mhrimin Deiniolen wedi diwedd y Rhyfel Byd Cyntaf.



J. Myrddin Williams, Llanrug a Gwilym Evans (Gwilym Tyddyn Alys) ym Mhonc Hafod Owen tua 1930.

enghraifft o grefft chwarelwyr Dinorwig.

Rhoes Mr Williams wybodaeth ddiddorol hefyd am y modd yr oedd llechi yn cael eu cyfri' gan y chwarelwyr – digon i roi cur pen i unrhyw fathemategwr sy'n ddibynol ar y dull degol erbyn heddiw! Cai'r llechi eu cyfri' fesul 'mwrw', sef fesul tair crawen. Roedd un ar hugain mwrw yn rhoi 63 crawen. Yna ychwanegid un grawen atynt i roi cyfanswm o 'hanner cant' o lechi! Yn y llun o J. Myrddin Williams a'i bartner, Gwilym Evans, mae'r pentwr llechi ar y dde yn cynnwys 'cant' o lechi, sef 128 crawen. Roedd y chwarelwr, wrth gwrs, yn cael ei dalu fesul 'cant' o lechi, a'r cyflog tua 1930 oedd tri swllt a grôt am 'gant' o lechi Princess, crawiau 24 x 14 modfedd.

Mae Mr Williams hefyd yn cofio cystadleuthau hollti a naddu yn cael eu cynnal ar ddiwrnod carnifal yng Nghwm y Glo, a hynny ar y cae gyferbyn â fferm Carreg y Frân.

#### Cwmnïau Drama, Brynrefail.

Gan Eirwyn Williams, Llwyncoed y daeth y llun o Gwmni Drama Brynrefail yn y 1920'au, ond nid yw'r holl enwau ar gael. Byddai'n ddiddorol cael gwybod pwy fu'n

gyfrifol am sefydlu'r cwmni, a pha ddramâu a gâi eu perfformio ganddynt. Dyma gyfnod pan oedd lliaws o gwmnïau mawr a mân yn tyfu fel madarch drwy Gymru, ac yn paratoi nosweithiau o adloniant, nid yn unig i gynulleidfaoedd mewn neuaddau pentref a festrioedd capeli, ond i'r actorion eu hunain a'u mynych droeon trwstan wrth deithio neu berfformio.

Daw'r ail lun gan Mrs Margaret Roberts, Caernarfon (Brynrefail gynt). Mr W. F. Williams, Post Brynrefail oedd yn gyfrifol am gael y criw actorion ynghyd, ac y mae'r llun yn dangos y cast a berfformiai'r ddrama 'Nora Plas y Foel' yn Festri Capel Brynrefail. Tybed pam fod Castell Dolbadarn yn rhan amlwg o'r olygfa? Yn ogystal â'i mam, roedd Ioan Roberts, tad Margaret, hefyd yn cymryd rhan yn y ddrama, ond heb aros i gael tynnu ei lun! Roedd dau arall o'r cast yn briod: Owen N. Jones a Jennie Arfon, ac ymfudodd y ddau i Awstralia. Yn Haulfryn roedd y pâr priod arall yn byw, sef Mr a Mrs Owen Foulkes. Credir i'r cwmni hwn berfformio 'Beddau'r Proffwydi' gan W. J. Gruffydd.

Oes yna eraill o drigolion y fro yn cofio mwy am Gwmni Drama Brynrefail neu am gwmnïau drama yn rhai o bentrefi eraill yr ardal?

#### Mwy o atgofion am dripiâu Ysgol Brynrefail.

Rai misoedd yn ôl cafwyd hanes trip i Gaerdydd gan Ifan Wyn Williams. Un arall a fu ar y trip hwnnw yw Mrs Shirley Griffiths (Jones gynt o Gellihirbant, Llanberis), sydd bellach yn byw yng Nghaerfyrddin wedi blynydd-oedd yng Nghanaada, ac yn derbyn yr 'Eco' yn rheolaidd. Anfonodd dudalennau o atgofion am wahanol dripiâu a wnaeth gyda'r ysgol yn y cyfnod hwnnw: does ryfedd fod teithio wedi bod yn ei gwaed byth ers hynny! Gweld adeiladau gwynion, heirdd canol dinas Caerdydd sy'n aros yn y côf, ond yn wahanol i'r hogia, ni chafodd y genethod ymweld â'r stadiwm rygbi!

'Yn hytrach, aethom i'r siopau gyda Miss Gwyneth Evans, Miss Catherine Evans a Miss Lewis. Roedd Beryl Noel Williams yn gwneud i barwb chwerthin wrth ddisgrifio'r merched yn trio hetiau yn siop fawr Roberts' yn Kingsway. Cofiaf Miss Lewis yn trio rhyw het fawr a phluen ynddi, a pharwb yn chwerthin, hyd yn oed Miss Lewis.'

Fel rhan o'r trip a'r gwaith ynghlwm ag ef, bu'n rhaid i bob disgybl gwneud llyfr sgrap am 'Heddwch' – a hynny fel roedd y rhyfel ar fin torri allan. Cafwyd arddangosfa o'r llyfrau sgrap

yng nghapel Brynrefail, a'r dosbarthiadau yn cael eu tywys yno fesul un i'w gweld.

Mae Miss Gwyneth Evans yn cael canmoliaeth uchel am ei hymdrech i ddysgu hanes Cymru i'r disgyblion: 'Fentra'i nad oedd llawer o blant Sir Gaernarfon yn y tridegau yn cael dysgu llawer am hanes Cymru; roedd hyd yn oed brinder llyfrau ar y pwnc. Credaf i Miss Evans weithio'n galed i hel defnydd ar y pwnc a dysgu hanes Cymru i ni.'

Aeth trip arall i'r Empire Exhibition yn Glasgow. 'Cofiaf Alun Roberts, brawd Wilbert, yn curo ar ddrws Gellihirbant cyn iddi oleuo i wneud yn siwr ein bod yn dal bws am bump y bore i Stesion Llanberis, a'r tren i Gaernarfon. Sefyll yno ar fore oer a gwlyb i ddisgwyl y tren o Lyn ac Eifionydd, a'r plant yn gwneud stumiau arnom drwy'r ffenestri llaith. Codi mwy o blant ym Mangor (rhaf Bethesda'n blant drwg!) Ond doedd dim cyfle i ni gambyhafio gyda Robert Morris a

Jones Chem ('The atom is indivisible and cannot be split!') yn eistedd gyda ni. Heulwen Morris wedi cael gêm newydd sbon i'w chwarae ar y tren – Monopoly – i leddfu siwrnai mor faith. Clywed rhywun yn gweiddi 'Gretna Green', a Miss Lewis yn adrodd hanes rhamantus y lle.'

Wedi cyrraedd Glasgow roedd angen cyrchu Iberias Park, cartref yr arddangosfa. 'Cofiaf weld llun mawr o lowyr wrth eu gwaith ar wal pafiliwn Prydain Fawr, a gweld y llun cyntaf erioed o 'Mountie' ym mhafiliwn Canada: hwnnw'n sefyll yn syth fel pastwn. Mynd i'r siopau'n naturiol, a digon o dderwis ymysg y trugareddau lliwgar: kilts, bocsus sigarets, pethau sgwennu; i gyd merwn coch, glas a gwyrdd – lliwiau llwythau'r Alban. Miss Lewis yn erfyn arnom i beidio gwario'n wirion – ond doedd dim rhaid iddi boeni. Doedd fawr ar ôl yn ein pocedi, a'r trip wedi costio £5 i'n rhieni; cyflog pythefnos yn y chwarel bryd hynny.'



Dosbarth ysgol Tan y Coed, Penisa'rwaen yn 1934. Pwy 'di pwy?

Roedd tripiâu lleol i'w cael gyda'r ysgol hefyd, a chofia'n arbennig am ymweliad â'r Guildhall yng Nghaernarfon i weld drama Macbeth. 'Dame Sybil Thorndike a Lewis Casson oedd actorion blaenaf yr "Old Vic" bryd hynny, a byddent yn mynd ar daith drwy'r wlad er mwyn i blant ysgol gael eu gweld yn perfformio. Roedd yn brofiad bythgofiadwy.'

Mae Mrs Griffiths hefyd yn sôn am ferch o Ysgol Brynrefail o'r enw Isabel Rogers a aeth yn ddisgybl i un o ysgolion dramâu Llundain, ac fel y byddai Mr Thomas, y Prifathro, yn dilyn ei hanes ac yn gadael papurau newyddion gyda hanesion amdani yn ystafell y chweched. Mae'n ymddangos iddi fod yn actio gyda cwmni'r 'Old Vic' ym Mharis yn perfformio 'St Joan'. Oes rhywun â mwy o wybodaeth amdani?

Teithiau lleol eraill sy'n aros yn y côf yw'r rhai yn ystod y rhyfel yng nghwmni Miss Parry (Biol) a Miss Otter (Daearyddiaeth). 'Pwrpas y tripiâu oedd rhoi cefndir a lliw ar rai o'r gwersi a ddysgwyd mewn botaneg a daearyddiaeth, ac efallai

i roi rhywbeth sylweddol i ni i'w gwneud yn ein hamser hamdden yn ystod dyddiau ansefydlog y rhyfel. Mwynheais a dysgais lawer wrth gerdded a beicio drwy'r fro. Cofio cerdded i gopa'r Wyddfa, a dringo'r Elidir a chyrchu Cegin y Cythraul, cyn cael te yn Nant Peris gan Mrs Williams (mam Gareth, ein harweinydd) – teisennau, a hithau'n gyfnod rations! Beicio drwy Ddyffryn Nantlle a gweld Llyn y Dywarchen am y tro cyntaf. Mynd i Frynsiencyn a cherdded dros y traeth i Landdwynn. Cefais ddigon o awch am deithio a blas i fentro mwy yn y dyfodol.'

Llawer o ddiolch am rannu'r atgofion â'r darllenwyr – ac efallai roi hwb i eraill i sgwennu rhai o'u hatgofion am ddyddiau ysgol.

Aeth y golofn yn eitha' maith y mis hwn – diolch i chi, ddarllenwyr. Ond mae mwy o sgwarnogod wedi eu codi. Os oes gennych wybodaeth am rai ohonynt, neu am godi sgwarnogod eraill yn ymwneud â hanes y fro, yna cysylltwch â Dafydd Whiteside Thomas, Bron y Nant, Llanrug, Caernarfon. (01286 673515)



## Cyngor Cymuned Llanberis

Cyfarfu'r Cyngor yn 'Angorfa' ar nos Iau, 19 Hydref gyda'r Cynghorydd Helen Sharp yn y gadair. Derbyniwyd adroddiad am gyfarfod rhwng un o swyddogion Cyngor Gwynedd, y Cynghorydd Trefor Edwards a chynrychiolwyr o'r Cyngor Cymuned ar y Stryd Fawr yn Llanberis i drafod gwelliannau arfaethedig i broblemau traffig a pharcio yn y pentref a gwella ansawdd gyffredinol y Stryd Fawr. Deallir y bydd posibilrwydd o dderbyn arian tuag at y cynllun o fis Ebrill ymlaen, a cheir gwybodaeth bellach maes o law ynglŷn â'r datblygiadau.

Mae mân welliannau mewnol wedi eu cwblhau i 'Angorfa' a phenderfynwyd cysylltu â gwahanol gongtractwyr i gael prisiau cystadleuol am beintio'r holl waith coed allanol.

Croesawyd y gwelliannau ynglŷn â defaid crwydrol yn dilyn gosod grid ar ffordd y Clegir, a chyfeiriwyd hefyd at y ffaith fod y giat uwchben y viaduct bellach yn cael ei chau ar ôl y tren olaf bob dydd, ac y byddai hynny hefyd yn gymorth i gadw defaid o'r pentref.

Penderfynwyd ymaelodi â Chymdeithas Tai Eryri, gan nodi'r Cynghorydd Ken Jones fel cynrychiolydd y Cyngor.

Adroddodd y Clerc iddo gysylltu â swyddogion y Parc Cenedlaethol a Menter Gogledd Eryri ynglŷn â bwriad y cyngor i wneud cais i Gronfa CAE i sefydlu llwybr troed yn gyfochrog â'r ffordd fawr o bentref Llanberis i'r Nant Ucha. Penderfynwyd trefnu i gynnal cyfarfod ar y cyd rhwng yr asiantaethau perthnasol i drafod oblygiadau'r cais a'r dull gorau o weithredu.

Cafwyd y copi drafft o reolau'r fynwent yn Nant Peris, a chytunwyd i ychwanegu rhai cymalau perthnasol ac i'w hadolygu yng nghyfarfod nesaf y Cyngor. Cyfeiriwyd hefyd at drafferth a all ddeillio o geisio sicrhau diogelwch rhai cerrig

beddau. Bydd y mater yn cael sylw pellach yng nghyfarfod nesaf y Cyngor.

Derbyniwyd ateb o Gyngor Gwynedd yn nodi fod llwybr 44 (Mount Pleasant i Lôn Tŷ Du) i'w arwyddo yn y dyfodol agos.

Cytunwyd â chais y datblygwr i enwi'r stad tu cefn i Erw Fair yn 'Gwêl y Mynydd'.

Derbyniwyd gwahoddiad i agoriad swyddogol arddangosfa y diweddar Neville Foulkes i'w chynnal yn y Mynydd Gwefru.

Bydd cyfarfod nesaf y Cyngor yn cael ei gynnal yn 'Angorfa' nos Iau, 16 Tachwedd am 7 o'r gloch.

## Arddangosfa J. Neville Foulkes

Ar un olwg, gwelir yma artist a ddechreuodd ddysgu ei gelfyddyd a'i grefft fel llawer i un arall, drwy gopïo ac o lyfrau. Ond o ail edrych ar rai o'r lluniau, gwelir fod yma artist sensitif a ddatblygodd i fynegi ei ofidiau a'i obeithion mewn ffordd arbennig. Yn sicr, nid artist amaturaid sy'n peintio blodau a thirluniau sentimental neis neis sy'n yr arddangosfa hon, rwy'n falch o ddweud.

Gwelir paentiadau o chwarelwyr. Gwelir un paentiad mawr o wynebau chwarelwyr, ofnus yr olwg, yn sefyllian, yn edrych yn uniongyrchol arnom, fel pe baent yn aros i glywed am y gwaethaf a allai ddigwydd yn y chwarel - y cyfan yn un patrwm clos o chwarelwyr, sy'n creu awyrgylch gref mewn llinellau cryf a thonnau o frown. Gwelir llun arall o bennau, un yn ymddangos yn ddrwgdybus, un yn dal ei ddwylo i fyny mewn ofn neu banic, un arall â rhyw hanner gwen - i gyd yn syllu i gyfeiriadau gwahanol. Gwelir darlun arall o bedwar chwarelwr, eto yn sefyllian, yn syllu, un gyda hanner gwen - darlun sydd gydag awyrgylch gref iddo.

Yn rhyfeddol iawn, gwelir categori arall o luniau gan Neville Foulkes, lluniau pastel

|                                                   |
|---------------------------------------------------|
| <b>DEINIOLEN</b>                                  |
| W. O. Williams, 6 Rhydfadog. Ffôn: (01286) 871259 |

DYMUNA Ernest a Margaret Ellen, Hafan, 7 Porth y Gogledd ddiolch o galon i'w teulu, ffrindiau a chymdogion am yr anrhegion, y blodau a'r cardiau a dderbyniasant ar achlysur eu Priodas Ruddem. Hefyd i'r Parch John Pritchard am y gwasanaeth o fendith pen-blwydd eu priodas. GENEIDIGAETH.

Llongyfarchiadau i Gwyndaf a Gwenlli, Maes y Bryn, Pontrug ar enedigaeth eu merch, Teleri Medi ar Fedi 16.

DIOLCH. Dymuna Gwyndaf a Gwenlli ddiolch i'w teulu, ffrindiau

a chymdogion am yr arian, anrhegion a chardiau a dderbyniwyd ar achlysur genedigaeth eu merch, Teleri Medi.

CYFEILLION EGLWYS CRIST LLANDINORWIG. Cynhaliwyd cyfarfod yn yr Eglwys nos Lun, 4 Hydref. Unwaith eto mwynhawyd swper cynhaeaf a baratowyd gan yr aelodau. Y siaradwr gwadd oedd ein Curad, y Parchedig Gareth Parry. Bu'n siarad yn ddiddorol iawn am ei ddiddordeb mewn trenau er pan yn blentyn. Dangosodd gasgliad o hen bethau oedd yn ymwneud â rheilffyrdd gan esbonio eu pwrpas. Diolchwyd iddo gan y Parchedig Tegid Roberts. Cynhelir y cyfarfod nesaf nos Lun, 6 Tachwedd pan fydd Miss J. Moeller a Miss M Matthews yn dangos sleidiau o'u gwyliau yn Mauritius.

PLAID CYMRU. Enillwyr Clwb Cant mis Medi: £10: Mr Leslie Larsen, Llygad yr Haul, Penisarwaun; £5: Miss M Jones, Swyddfa Arfon, Caernarfon. Enillwyr mis Hydref: £10: Mr Gwyn Parri, Cynefin; £5: Mrs Hannah M. Roberts, Tŷr Ysgol, Dinorwig.

MERCHED Y WAWR. Mis Tachwedd bydd y gangen leol yn dathlu chwarter canrif ers ei sefydlu. Trefnir cinio yng Ngwesty'r Fictoria, Llanberis ar nos Wener, 24 Tachwedd gyda Chôr Meibion Dyffryn Peris yn diddanu.

Os oes cyn aelodau o'r gangen â diddordeb mewn ymuno yn y dathlu, cysylltwch â Margaret Jones. Ffôn: 870685.

CRONFA YMDDIRIEDOLAETH DEINIOLEN.

Dyfarnwyd £950.00 i Seindorf Deinolen gan y Gronfa uchod, nid £150 fel yr adroddwyd yn Eco mis Hydref. Ymddiheurwn am y camgymeriad.

**Cefnogwch  
ein  
Hysbysebwy**

**IEUAN  
WILLIAMS**  
**Glanffrwd  
DEINIOLEN**  
**(01286) 870484**

- ★ Bysiau o 12 i 53 sedd
- ★ Teithiau Lleol a Thramor
- ★ Gwaith Contract
- ★ Telerau arbennig i bensiynwyr, myfyrwyr a phlant ysgol.



**ORIEL  
CWM  
Cwm y Glo**

Ffôn/Ffacs: (01286) 870882

Gwasanaeth Fframio  
Lluniau o bob math  
ar gael ar y safle

Prisiau Rhesymol

Arddangosfa  
o luniau gwreiddiol  
gan Artistiaid Lleol  
**Richard S. Humphreys**

**antur WAUNFAWR**

**Cynllun Dodrefn**  
Stâd Cibyn, Caernarfon

**Cyfleon Gwirfoddoli**

mae'r Cynllun arloesol yma yn edrych am wirfoddolwyr i gynorthwyo gyda gwaith trin dodrefn ac i gefnogi a chynorthwyo gweithwyr gydag anableddau dysgu yn eu gwaith

Cyfle arbennig i seiri coed a thrydanwyr wedi ymddeol, neu bobl all droi ei llaw at drin dodrefn.

am fwy o fanylion holwch Glyn Mowll,  
Rheolwr Cynllun Dodrefn 01286 674 155

[www.anturwaunfawr.org](http://www.anturwaunfawr.org)





## CWM Y GLO

Mrs Iris Rowlands, Glanrafon. Ffôn: (01286) 872275

Camera yn ngofal Gwyndaf Hughes, Glascoed, Llanrug. Ffôn: 677263

YMDDEOL.. Dymunwn yn dda i Mrs Jill Harris, Tŷ Capel (neu Jill 'Home Help' fel yr adnabyddir hi) ar ei hymddeoliad ar ôl blynyddoedd o ofalu am yr henoed. Roedd Jill yn fawr ei pharch gan bawb y bu yn gofalu amdanynt gyda gofal tyner a charedig.

DIOLCH. Dymuna Mrs Jill Harris ddiolch o galon i bawb am y llu cardiau a'r anrhegion a dderbyniodd ar ei hymddeoliad.

MARWOLAETH. Drwg iawn oedd gennym glywed am farwolaeth sydyn Mr Aled Evans yng Nghaernarfon (gynt o Tŷ Newydd) Estynnir cydymdeimlad dwysaf â Mrs Nancy Evans, Melfyn, Mair a'r plant yn eu profedigaeth lem o golli priod, tad a thaid annwyl.

CAPEL Y TABERNACL. Dyma drefn yr oedfaon am fis Tachwedd 5: Parch Gwynfor Williams - 4.00 12: Parch John Pritchard - 4.00 19: Mr R. Coetmor Williams - 5.30 26: Gwasanaeth yng ngofal Mrs Cassie Thomas am 5.30

Croeso i bawb ymuno gyda ni.

YN EISIAU. Gan fod Mr Maldwyn Hughes yn rhoi'r gwaith o ddosbarthu'r Eco i fyny ar ddiwedd y flwyddyn mae arnom angen dosbarthwr newydd. Os oes rhywun yn barod i ymgymeryd â'r gwaith, cysylltwch a mi ar 872275 neu Mrs Margaret Williams ar 870730 os gwelwch yn dda.

YSGOL CWM-Y-GLO

Y tymor hwn mae 9 o blant bach newydd wedi cychwyn yn y Dosbarth Meithrin ac un arall ym M1.1. Maent i gyd wedi setlo yn ardderchog erbyn hyn a gobeithiwn fod teulu Owen Cain wedi ymgartrefu yn eu cartref newydd uwchben Dinorwig.

Cafodd dosbarth Mrs Gwenifer Roberts fynd i Theatr Gwynedd i sioe arbennig gyda Sali Mali a'i ffrindiau. Cawsant amser gwerth chweil a daethant yn ôl i'r ysgol yn llawn straeon difyr.

Enillwyr Clwb yr Ysgol am fis Mai oedd Miss Wendy Smith, y Felinheli a Mrs Doreen Fleetwood, y Fron. Mae croeso i aelodau newydd ymuno gyda ni - mae

nifer o rifau gwag ar gael rwan. Mae cyfle i bawb ennill dwy wobwr ariannol bob mis.

Cynhaliwyd Ffair Lyfrau yn yr ysgol yn ystod mis Hydref. Diolch i bawb ddaeth i gefnogi'r gwerthiant, yn arbennig felly ar y nos lau, pan ddaeth Miss Sioned Bebb o Siop Pendref Bangor i arddangos nwyddau o bob math. Gan fod y noson wedi bod cystal llwyddiant, gobeithiwn drefnu un gyffelyb eto y flwyddyn nesaf.

Eleni, am y tro cyntaf, cynhaliwyd ein Gwasanaeth Diolchgarwch yng Nghapel Tabernacl, Cwm-y-glo. Croesawyd ni yno gan y Parch Gwynfor Williams a chafwyd gwasanaeth mewn awyrgylch addolgar a hwyliog. Diolchwyd i'r plant a'r athrawon gan Dr. Graham Thomas.

Daeth y plant a ffrwythau gyda hwy i'r capel a throsglwyddwyd y rhoddion yn ddiweddarach i ofal Caban y Cwm er mwyn paratoi salad ffrwythau i aelodau'r gymuned a ddeuai i'r caffi. Diolch yn fawr i bawb ddaeth i'r capel atom, gan obeithio eich bod wedi cael yr un budd ac a gafodd plant yr ysgol yn naws yr addoldy ar ei newydd wedd.

Wrth gau am ylliau hanner tymor rydym yn ffarwelio gydag un sydd wedi rhoi blynyddoedd o wasanaeth amhrisiadwy i'r ysgol. Cychwynnodd Mrs Hilda Orritt yma yn 1972 ac mae wedi bod yn oruchwyliwr amser cinio, yn gogyddes gynorthwyol ac, am y naw mlynedd olaf, wedi bod yn gogyddes. Cyflwynwyd siec iddi gan y Cyng Brian Jones ar ran y plant, y staff, y llywodraethwyr a'r rhieni. Derbyniodd hefyd fasged hardd o flodau gan Heather Hughes - y gorau un am glirio ei phlat cinio! Carem ddymuno iechyd da a phob hapusrwydd i chwi Mrs Orritt. Diolch o galon am eich holl ymroddiad a chefnogaeth i'r ysgol ar hyd yr holl flynyddoedd. Mwynhewch eich seibiant yng Ngwlad Twrci a galwch i mewn i'n gweld achos mi fydd hi'n rhyfedd yma hebddoch.

## LLANRUG

Eryl Roberts, 3 Bryn Moelyn. Ffôn: (01286) 675384

Camera yn ngofal Gwyndaf Hughes, Glascoed. Ffôn: (01286) 677263

SASIWN. Ar Fedi 27 cyfarfu Sasiwn Chwiorydd Arfon yng Nghapel y Rhos. Y wraig wadd oedd y Parch Eleri Edwards a fu yn genhades ar Ynys Madagascar am gyfnod. Cawsom hanes y gwaith mae yn wneud rwan sef Caplan Ysbytai a Charchardai ar Lannau Mersi. Treuliwyd pnawn difyr iawn a chafwyd paned ar y diwedd wedi ei drefnu gan chwiorydd y capel. Diolch i bawb fu'n helpu.

YSGOL LLANRUG.

Cafodd plant B1.5 a 6 gyfle i gyfarfod yr awdures Brenda Wyn Jones yn Amgueddfa Lechi Cymru, Llanberis. Sôn am ei nofel 'Bwli a Bradwr' oedd yr awdures ac mae Streic Fawr 1900-03 yn Chwarel y Penrhyn, Bethesda yn gefndir i'w stori. Bu'r plant yn trafod y nofel a'r cefndir gyda Brenda Wyn Jones yn un o dai Fron Haul, y tai-rhes o Dan-y-grisiau a godwyd o'r newydd yng Nghilfach Ddu i ddarlunio cyfnodau yn hanes y gymdeithas chwarelyddol.

Mae gan Brenda Wyn Jones nofel newydd i blant erbyn hyn sef 'Sais Ydi o Miss!'. Stori ydyw am y plant a ddaeth i'r ardal yma yn ifaciwys yng ngyfnod yr Ail Ryfel Byd.

Mwynhaodd disgyblion B1.5 a 6 dridiau yng ngwersyll Glan-llyn hefyd. Cafwyd llawer o brofiadau diddorol a gwerthfawr yn cynnwys ymweld â Chanolfan Celtica a Senedd-dŷ Owain Glyndŵr ym Machynlleth a'r Ganolfan Dechnoleg Amgen ger Corris.

Roedd y tywydd yn caniatáu gweithgareddau ar Lyn Tegid hefyd a bydd y plant yn siwr o gofio'r pleser a gawsant yn canwio ac yn trin y cychod rhwyfo.

Mwynhaodd disgyblion yr adran babanod eu hunain yn cyd-ganu a symud gyda chriw Planed Plant pan aethant i wyllo'r sioe 'Planed Plant' yn Theatr Gwynedd.

Roedd genethod Blwyddyn 2 yn werth eu gweld yn dawnsio'r Ddawns Flodau yn seremoni'r Cadeirio a chyflwyno Tlws yr Ifanc yn Eisteddfod y pentref nos Wener, Hydref 13.

MARWOLAETHAU

Cydymdeimlwn yn arw ac Owie, Gwenda, Arfon, Vivian, Carys,

Nerys, Gwyndaf ac Ian yn eu profedigaeth o golli eu mam, sef Mrs Catherine Elinor Lewis, 13 Hafan Elan (Rhos Rug gynt). Hefyd, â Mr Cledwyn Williams, Tŷr Ysgol a Ceridwen a Mary a'u teuluoedd yn eu profedigaeth hwythau o golli Mrs Ceinwen Williams.

Bu farw Mr Gwilym Owen, 2 Rhos Elan, Ffordd Bethel yn sydyn iawn ar Hydref 11 ar ôl gwaeledd byr. Bydd colled fawr i Falmai, Dylan a Gwawr ac hefyd i'r gymuned, oherwydd roedd Gwilym bob amser yn barod ei gymwynas ac wedi gwneud gwaith cynnal a chadw ac adeiladu i lawer o gartrefi yn lleol.

GWAELEDD. Cofion gorau at Mr Now Roberts, 2 Hafan Elan sydd ar hyn o bryd yn Ysbyty Gwynedd. Brysiwch wella.

GENEDIGAETHAU

Llongyfarchiadau i Lois a Stephen Wiggins, 22 Glanffynnon ar enedigaeth eu plentyn bach.

Hefyd i Eleri ac Arwyn, Llys Awen, Ffordd yr Orsaf ar enedigaeth Rhian Wyn.

LLONGYFARCHIADAU i Jason Lloyd Jones, 23 Glanffynnon ar dderbyn teilyngdod yng Ngradd 2 arholiad offeryn chwyth yn ddiweddar. Da iawn chdi.

DIOLCHIADAU. Dymuna Mrs L.E. Owen, Llys Myfyr, Ffordd yr Orsaf ddiolch i'w theulu a'i ffrindiau oll am y cardiau a'r anrhegion a dderbyniodd ar achlysur ei phen-blwydd.

DIOLCH. Dymuna Cledwyn Williams, Tŷr Ysgol, Llanrug a'r plant, Ceridwen, Mary, Gareth, Enyd a Gwyn, ddiolch am bob arwydd o gydymdeimlad a dderbyniwyd ar ôl y profedigaeth o golli Ceinwen. Diolch am y gefnogaeth gan y Meddygon lleol (Waunfawr), y Gweinyddesau a'r Gofalwyr ymroddedig. Diolch am yr holl alwadau ffôn, y cardiau niferus a'r cyfraniadau ariannol sylweddol dros ben, tuag at Ysbyty Bryn Seiont, Caernarfon. Gwerthfawrogi eich caredigrwydd a'ch cydymdeimlad yn fawr.

Cefnogwch ein  
Hysbysebwy



### GORSAF BETROL

**Esso BERAN**

**DEINIOLEN**

**Ffôn: (01286) 871521**

Ar agor 7 a.m. — 9 p.m. bob diwrnod  
Petrol • Diesel • Nwy Calor • Glo  
Cylchgronau • Papurau Newydd  
Cardiau Penblwydd • Wyau  
Nwyddau Groser • Melysion

**TICEDI LOTERI AR WERTH YMA!**



## BETHEL

Geraint Elis, Cilgeran. Ffôn: (01248) 670726

Camera yn ngofal Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl. Ffôn: (01248) 670115

DIOLCH. Dymuna Bessie Ellis, 15 Cremlyn ddiolch i'w theulu, cymdogion a ffrindiau am y llu cardiau, anrhegion a blodau a dderbyniodd ar ei phen-blwydd yn 80 ar Fedi 1.

Diolch yn fawr iawn.

DIOLCH. Hoffai Tom a Nan Owen, Berwyn ddiolch am bob cymorth yn dilyn damwain ddifrifol Tom yn ei gartref. Diolch yn arbennig i Gareth, y Paramedig Ambiwylans a'i Dechnegydd, Staff yr Uned Ddamweiniau, Wardiau Glyder a Hebog, Ysbyty Gwynedd ac i Carys, y ferch. Allwn ni ddim diolch digon iddi hi. Diolch o galon i bawb.

EISTEDDFOD. Cynhelir Cystadleuaeth Dawnsio nos Iau, 9 Tachwedd am 6 o'r gloch. Atgoffir y cystadleuwyr (unigolion a phartïon) i roi eu henwau i'r Is-ysgrifenyddes, Eirlys Williams (670088) erbyn dydd Llun, 6 Tachwedd.

Testunau ar gyfer y gystadleuaeth *Siarad Cyhoeddus* eleni yw:

a) Er y Cynulliad, cenedl sathredig yw'r Cymry;

b) Pwy fydd yma 'mhen can mlynedd?

c) Rhwch y wlad i mi - anghofiwch y dref!

ch) Be wnaem ni heb y Loteri?

*Celf a Chrefft*. Derbynnir y cynnyrch yn y Neuadd Goffa, dydd Gwener 1- Tachwedd rhwng 3.15 a 4.30 o'r gloch.

DATHLU. Yr oedd Tom a Nan Owen, Berwyn yn dathlu eu Priodas Ruddem ar 24 Medi, ac yn hytrach na derbyn anrhegion ar yr achlysur yma, gofynnwyd am roddion gan deulu a ffrindiau fyddai'n cael eu cyflwyno i Uned Arennau Elidir yn Ysbyty Gwynedd.

Derbyniwyd y swm o £435.00 ac fe fuasai Tom a Nan yn hoffi diolch i bawb am eu haelioni.

Mae eu dyled yn fawr i'r Uned Arennau ac i Ward Hebog am eu gofal o Tom bob amser.

Cafwyd parti i ddathlu yn Gors Bach a threfnwyd raffl ar y noson gyda'r elw o £61 yn cael ei roddi i Gronfa Staff Ward Hebog.

CLWB 200. Enillwyr Clwb 200 Neuadd Goffa Bethel am fis Medi oedd: £20: Andrew Bell, Ty

Newydd, Saron (219); £10: Beti Owen, Crud yr Awel (76); £5: Gwenan Roberts, 14 Stad Eryri (135), Idris Jones, Tyddyn Oer (115), Iorwerth Williams, Cilcain (71), Ian Mercer, Rhoslyn (9), Emyr W. Jones, Wenallt (109), Myfanwy W. Harper, Llandygai (54), Elizabeth Jones, Tyddyn Oer (92), Rhian Hughes, Erddig (86).

Y GYMDEITHAS LENYDDOL. Agorodd tymor newydd y Gymdeithas gyda noson ddifrifol yng nghwmni Parti Myra o'r Waunfawr.

Nos Fawrth, Tachwedd 21 yn Festri'r Cysegr ceir darlith gan y Parch Emlyn Richards ar 'Dylanwadau'. Estynnir croeso mawr i aelodau hen a newydd.

DIOLCHGARWCH Fwrw'r Sul 15 Hydref cynhaliwyd Gŵyl Ddiolchgarwch capel y Cysegr.

Fore Sul cyfarfod dan arweiniad plant yr Ysgol Sul a gafwyd, gyda phawb yn gwneud eu gwaith yn ardderchog fel arfer. Nos Lun, 16 Hydref, cafwyd cyfarfod gweddi dan arweiniad y swyddogion.

MERCHED Y WAWR. Nos Fercher, 11 Hydref dan lywyddiaeth Mrs Glenys Griffiths, cafwyd noson yng nghwmni Bryn Griffiths, Penisarwaun. Cafwyd sgwrs ddifrifol am lestri Gaudy Welsh ac arddangosfa o wahanol fathau. Eglurodd Bryn mai llestri i'r teulu cyffredin yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg oedd y llestri yma ond, erbyn hyn maent yn cael eu casglu a phrisiau mawrion yn cael eu talu amdanynt.

Edwina Morris ac Ann Lewis oedd yn gofalu am y banded ac Anne Elis enillodd y raffl. Diolchodd Mair Read i Bryn ar ran yr aelodau.

Bydd cyfarfod Tachwedd yng Nghrefftau Cae Coch, Llanberis ar yr 8fed o'r mis a cheir cyfle i ddechrau ar y siopa Nadolig al phaned yn y caffi.

DIOLCH. Dymuna pwyllgor Clwb Pêl-droed Ieuencid Bewthel ddiolch i gwmni adeiladwyr S.J. Burgess, Caernarfon am eu cymorth parod wrth baratoi y 'Cae Top' ar gyfer y tymor newydd.

Cefnogwch ein  
Hysbysebwy

## WAUNFAWR

Mrs Nan Roberts, Pantafon. Ffôn: (01286) 650570

Camera yn ngofal Heulwen Hughes, Argoed. Ffôn: (01286) 650556

CLWB 300 Y GANOLFAN.

Enillwyr mis Medi: 1. £40: Elfyn Pierce, Bryngwyn; 2. £25: Jeanette Burden, 3 Dôl Erddi; 3. £10: Mrs Hilda Bradshaw, Castle View.

YR URDD. Cynhelir noson Tân Gwyllt ar nos Wener, 3 Tachwedd am 6.30 yn y Ganolfan. Bydd cawl a chŵn poeth ar gael. Croeso cynnes i bawb (Noder os gwelwch yn dda na fydd yr Urdd yn cyfarfod ar nos Fercher, 1 Tachwedd - am yr wythnos yma yn unig.)

SEFYDLIAD Y MERCHED. Yng nghyfarfod y Sefydliad ym mis Medi croesawodd Mrs Mair W. Williams, y Llywydd, yr aelodau i'r cyfarfod cyntaf ar ôl gwyliau'r haf. Rhoddodd groeso hefyd i Mrs Maureen Hughes, Bryn Peris, fel ymwelydd. Cyfeiriodd Mrs Williams at farwolaeth Mrs M. Morgan Jones, un o hen aelodau ffyddlon y Sefydliad am flynyddoedd. Cydymdeimlodd â Dr Prys M. Jones yn ei golled. Cafwyd arddangosiad gan Eirian Roberts o Debenhams Bangor ar golur 'Clinique'. Cytunodd Menna Mcdaid i fod yn fodel iddi. Roedd pawb wedi mwynhau ei sgwrs yn fawr.

Yn y cyfarfod ar ddydd Iau, Hydref 5 cafwyd cwis ar wybodaeth gyffredinol gan Mrs Pat Parry. 'Mae'n syndod gymaint mae rhywun ddim yn ei wybod,' oedd ymateb yr aelodau. Ond roedd pawb wedi mwynhau eu hunain. Diolchodd Mrs Mair W. Williams, y Llywydd, i Mrs Parry. Enillwyd y raffl, wedi ei rhoi gan Mrs M.W. Williams gan Mrs Pat Parry.

Y GYMDEITHAS LENYDDOL. Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf y tymor o'r Gymdeithas Llenyddol nos Lun, Hydref 9 yn y Ganolfan gyda chyngerdd gan gôr y pentref o dan arweiniad Gwenda Griffith a Haydn Jones. Cyflwynwyd yr eitemau gan R. Gwynn Davies a llywydd y noson oedd Meira Turner, a hi hefyd a dalodd y diolchiadau i'r côr am noson o fwynhad.

Bydd y cyfarfod nesaf ar nos Lun, Tachwedd 13 pan geir sgwrs ar ei brofiadau digrif a difrif gyda'r grwp tra phoblogaidd, Hogia Llandygai, gan Neville Hughes. Llywydd y noson fydd Grace Dawson.

Estynnir croeso cynnes i aelodau hen a newydd i ymuno â'r Gymdeithas y gaeaf hwn. Pa ffordd well i dorri'r gaeaf?

LLONGYFARCHIADAU

GENEDIGAETH. Ganwyd mab bychan, Carwyn, i Rhian a Clive, Stad Tŷ Hen, brawd bach i Catrin Heledd ac ŵyr bach i Mr a Mrs Gwynedd Williams, Stad Bro Waun.

Merch fach, Alys, a anwyd i Jane a Dafydd Davies, Bryn Teg.

Ganwyd merch fach, Rhiannon Elin, i Jen a Julian, Angorfa, chwaer fach i Becca a Megan. Dymunwn bob bendith i'r rhai bach a'u teuluoedd.

CERDDOROL. Llwyddodd Pryderi Thomas, Stad Tref Eilian gydag anrhydedd yn yr arholiad chwarae'r Piano, Gradd I. Llongyfarchiadau i ti Pryderi.

CROESO ADREF O'R YSBYTY i Mrs Pat Parry, 1 Bryn Golau, Mrs Ryan, Dôl Erddi, Mrs Rhian Jones, Stad Tref Eilian a Mrs Mary Jones, Llwyn Afon. Gobeithiwn eich bod yn cryfhau ac yn gwella. PROFEDIGAETH. Daeth y newyddion am farwolaeth lola, Llys Awel gynt a thristwch i'r rhai sy'n ei chofio yma yn byw, ac yn enwedig i ni sydd wedi cyd-oesi â hi yn yr ysgol. Anfonwn ein cofion a'n cydymdeimlad dwysaf at Eleri ei chwaer.

Yn dawel yn Ysbyty Gwynedd bu farw Miss Helen Jones, Stad Tref Eilian (Ty'n Coed gynt). Bydd colled fawr i Judith, Elwyn, Lliffon ac Einir a'u teuluoedd o golli mam, ac i Sian yn colli nain annwyl.

DIOLCH. Hoffai Jason ac Eleri ddiolch o galon i bawb am eu caredigrwydd ar achlysur eu priodas yn ddiweddar.

PARTI PEN-BLWYDD. Bu noson fawr iawn yn Waunfawr ar Fedi 9 pan fu parti yn dathlu pen-blwydd Annwen Fletcher yn 30. Cynhaliwyd y parti yn y Snowdonia Parc, lle bu Annwen yn dawnsio drwy'r nos gyda nifer fawr o ffrindiau a pherthnasau. Dymuna Annwen ddiolch yn fawr iawn i bawb fu mor garedig yn rhoi anrheg iddi ac a ddaeth draw i ymuno â'r hwyl. Diolch yn arbennig i Wendy am drefnu'r parti ac i Carole, Caffi Blas y Waun am wneud cacen ben-blwydd hyfryd.

AM DEITHIAU CYFFORDDUS, DIOGEL  
A RHAD YM MHYDAIN A THRAMOR ...



**BYSIAU ARFON  
LLANRUG**

(Eric Morris)

Ffôn: (01286) 675175 a 677858

## Fframia

**GWASANAETH FFRAMIO LLUNIAU**

Arbenigwyr ar fframio gwaith edau a nodwydd

Nifer helaeth o luniau ar werth

Dewis eang yn cynnwys:

IVOR STUBLEY :: KEITH ANDREW


KEITH BOWEN :: ROB PIERCY

**PARC PADARN, LLANBERIS (870922)**

(Ar gau dydd Sul a dydd Llun yn ystod y gaeaf)



# CAN MLWYDDIANT YSGOL BRYNREFAIL



## Y DIWRNOD AGORED

Rhiannon Roberts

Daeth llu o gyn athrawon, cyn ddisgyblion a charedigion Ysgol Brynrefail ynghyd ddydd Sadwrn, Medi 23 ar gychwyn wythnos dathlu'r Canmlwyddiant, a phawb yn ymfalchïo ac ail fyw eu dyddiau ysgol. Un yn cael modd i fyw wedi cyfarfod â hen ffrind, ac un arall yn gwirioni uwchben hen lun neu ddogfen. Roedd yr ymddiddan a'r hel atgofion yn hwyliog a byrlymus, a'r blynyddoedd rhwng ddoe a heddiw wedi diflannu i'r niwl! Gwelwyd hen luniau mabolgampau ar fideo a disgen CD Rom, a bu rhai pobl yn gwyllo am oriau gan ddyheu am eu harddegau athletaidd!! Erbyn hyn mae casgliad parhaol

o luniau hir wedi eu fframio yn addurno muriau'r neuadd, yn gofeb fyw ar gyfer y dyfodol. Hefyd mae casgliad yr Ysgol o hen luniau wedi cynyddu'n sylweddol gan ein bod wedi gwneud llungopiau manwl iawn o wahanol gyfraniadau gwreiddiol. Bu cyfle i brynu plat arbennig gydag englyn a bathodyn yr Ysgol arno, a chyfle hefyd i gael copi o restr o holl athrawon y ganrif (Heb y ffugenwau!) rhag ofn bod eich cof yn pallu.

Y teimlad cynnes ar ddiwedd y dydd oedd fod pawb yn gwerthfawrogi nid yn unig yr arddangosfa ar y diwrnod ond y cyfle gwerthfawr gawsant i berthyn i Ysgol Brynrefail.

## Canmlwyddiant Ysgol Brynrefail 1900 - 2000

Roedd mynd o Nant yn antur,  
Yn wenau i gyd, ac yn gur;  
Yn llond bws o ffws a ffydd  
A ni ar drothwy newydd;  
Y bore'n gwawrio'n beryg  
A'n llawn o'r hwyl sy'n Llanrug.  
Pawb a'i satchel a'i helynt,  
Un haid â dyrnaid o wynt  
Yn sŵn cŵn. Y drysau'n cau:  
Dwy awr o goridoriau!

Lle bu llên ar lechen las  
A hen arwyr yn eirias,  
Tawel yw'r chwarel a'i chŷn;  
Ni chei yno wreichionyn  
Â gwair ar lwch y geiriau;  
Haul a gwynt mewn chwarel gau.  
Baw a dwst fu'n hybu dysg,  
Fe gloddiwyd i gael addysg;  
Dathlwn y fargen 'leni  
O gael nawdd ein hysgol ni.

*Y Prifardd Dafydd John Pritchard*

**CEFNOGWCH EIN HYSBYSEBWYR**



## Y DIWRNOD AGORED



## Y CINIO CANMLWYDDIANT

Griff Morris



Roedd yr holl drefniadau wedi eu cwblhau, y byrddau wedi eu gosod a'r ystafell yn edrych yn ddeniadol a chroesawgar gyda lliwiau gwyrdd a choch yr hen ysgol i'w gweld yn amlwg iawn. Safwn gyda Ralph a Trefor ar risiau mewnol Gwesty'r Fictoria yn edrych i lawr ar y dorf o gyn-ddisgyblion a chynaelodau o staff yr ysgol. Roedd yr holl waith paratoi wedi dod i fwcl. Roeddem wedi cael y wefr o weld pobl yn cofleidio'i gilydd wrth gyfarfod am y tro cyntaf ers oesoedd. Roedd y noson wedi tanio. Roedd ton o sŵn siarad yn codi atom o'r cyntedd a'r lolfâ islaw. Nid oedd neb yn ymddangos yn poeni bod y gwesty ychydig yn hwyr yn cael popeth yn barod. Roedd pawb wedi ymgolli yn y sgwrsio ac roedd yr atgofion yn llifo, ac ambell botel o win yn ogystal. Gwyddwn erbyn hyn y byddai hon yn noson i'w chofio. Dechreuais innau ymlacio.

Roeddwn wedi bod yn pryderu ers wythnosau a nifer y cwestiynau yn codi yn fy meddwl. *Tybed a fyddai'r gwesty yn llwyddo i blesio'r 160 o westai?* Mae gen i syniad y byddai platiad o 'scones' ceiniog o Siop Wil John wedi plesio'r criw yma. *Oeddw'n i wedi gwneud cawl o ddewisiadau rhywun?* Na, roedd pawb wedi cael cawl prun bynnag! Roeddem wedi ceisio gosod pobl i eistedd wrth y byrddau yn weddol agos at rai eraill oedd yn yr ysgol yr un pryd. *Beth pe bai dau oedd yn elynion pennaf yn canfod eu bod yn eistedd ochr yn ochr?* Wel, 'tough', o leiaf fe fyddai'n gyfle iddynt gymodi.

Oeddech chi yno? Gawsoch chi eich plesio? Wel, mi gefais i! Roedd y 'starter' a'r cawl yn ardderchog. Roedd y prif gwr yn ddigon boddhaol er y buaswn wedi hoffi cael rhagor o lysiau, ond dyna fo, roeddwn i ar ei hôl hi ar y bwrdd cinio yn yr ysgol 'stalwm hefyd. Salad ffrwythau ardderchog a choffi i gau pen y mwdwl, a'r cwbl

mewn awyrgylch hamddenol braf. Roedd hi'n un ar ddeg o'r gloch arnom yn dod i lawr i'r lolfâ i gyfarfod â nifer o gyfeillion oedd wedi methu ymuno yn y cinio ac wedi dod draw i'r gwesty ar gyfer diwedd y noson. Mawr yw ein dyled i staff y Fic am wneud y noson yn un mor llwyddiannus.

Roedd hi'n braf iawn gweld ystod dda o oedran yn cael ei chynrychioli yn y cinio. Roedd rhai wedi dod o bellafoedd byd. Trwy gyd-ddigwyddiad hapus Miss Parry Biol, Mrs. Mary Vaughan Jones bellach, gafodd yr anrhydedd o fod y canfed person i gofrestru ar gyfer y cinio. Alla i ddim meddwl am neb mwy teilwng. Wrth gwrs, fe aeth y wobwr am y cyn-ddisgybl mwyaf brwdfrydig i Eifion. Dyna, mae'n debyg, pam mae o mor llwyddiannus fel prifathro.

O edrych yn ôl mi fuaswn yn gwneud un neu ddau o newidiadau. Mi gafodd nifer eu siomi am fod y rhestr wedi llenwi mor gyflym. Efallai y byddai darpariaeth symlach ar gyfer nifer mwy o bobl wedi bod yn well. Byddai blwch bach arall ar y ffurflen ar gyfer cyfenw gwreiddiol y gwragedd priod wedi bod yn fuddiol. Ac, yn sicr ddigon, byddai llabed enw i bawb ei wisgo wedi arbed peth embaras i ambell un ohonom. Er hynny, mae'n rhaid cydnabod bod y 'genod' yn cario'u hoed yn bur dda.





Lis Roberts yn sôn am

## Y CYNGERDD

Uchafbwynt gweithgareddau'r dathlu oedd y cyngerdd ardderchog ar y nos Wener. Roedd disgwyl mawr am y noson hon a phob tocyn wedi ei werthu ers wythnosau. Bu aelodau'r is-bwyllgor yn chwysu peintiau ers misoedd! Yr oedd dewis a dethol artistiaid yn boen, coeliwch fi, gan fod cymaint o dalent wedi codi o'r Ysgol. Yr oeddem ofn gadael rhywun allan neu anghofio rhyw seren ddisglair o'r fro. OS y gwnaethom, ymddiheurwn yn ddiffuant iawn. Llawenydd oedd deall nad oedd yr un o'r artistiaid am wrthod y gwahoddiad i gymryd rhan,

gyda'r cyflwynwyr, y bandiau, y corau, y grwpiau a'r unawdwyr yn eiddgar i ddymuno Pen-blwydd Hapus i'w hen ysgol. Mawr yw ein diolch i'r criw i gyd, a dymunwn bob llwyddiant iddynt yn eu gwahanol feysydd. Braint a phleser oedd cael bod yn rhan o'r holl drefnu a'r gweithgarwch. Fe fydd atsain y Corau Unedig yn cloi'r cyngerdd gyda geiriau addas y bardd o Lanberis, T Rowland Hughes, 'Tydi a roddaist', yn para'n hir iawn yn y cof. Pob dymuniad da i'r Ysgol i'r ganrif nesaf.



## BYTHGOFIADWY

Argraffiadau Elfed Morgan Morris, Prif ddisgybl

Bythgofiadwy! Llwyddiant llwyr fu'r wythnos i ddathlu Canmlwyddiant yr Ysgol. Daeth heidiau o hen ac ifanc i fwynhau'r wledd oedd gan yr Ysgol i'w chynnig.

Cynhaliwyd nosweithiau arbennig a roes ddysgeidiaeth ac agoriad llygaid i mi. Clywais hanesion difyr dros ben gan gyn-ddisgyblion, ac yn wir, cefais gyngerdd o dalentau hollol anghredadwy.

Balchder, dyna beth wyf yn ei deimlo o gael bod yn ddisgybl ym Mrynrefail. Disgybl mewn ysgol sydd wedi ffynnu ac wedi dysgu plant yr ardal yn benigamp, sydd wedi cynnal calon y gymdeithas, sydd wedi gwrthsefyll unrhyw rwystr ac yn sefyll hyd heddiw yn gyfanwaith anfarwol.

Pen-blwydd Hapus a llongyfarchiadau Ysgol Brynrefail!



## SYLWADAU GOLYGYDD YR ATODIAD

Mary Wyn Jones

Bellach mae'r hwrli bwrli drosodd a'r ysgol yn setlo i lawr ac edrych ymlaen at y Steddfod!

Ond ni allwn adael i'r cyfle lithro heibio heb roi fy mhwt i lawr.

Mae'r ansoddeiriau wedi bod yn llu i ddisgrifio'r wythnos, a chredwch fi maent i gyd yn wir! Lluoedd o atgofion gan bawb oedd ac unrhyw fath o gysylltiad â'r ysgol.

Braf oedd bod yn rhan o'r holl weithgareddau a chlywed yr hwyl, y sbort a'r sbri, yr 'Wyt ti'n cofio...?' 'Beth sydd wedi digwydd i pwy a pwy?'

Ie, braint yn wir o gyfarfod â chyn-ddisgyblion oedd llawer hŷn na fi ond bod eu hatgofion yr un mor fyw Eu balchder yn

llwyddiant yr ysgol a'r disgyblion presennol. 'Cadw'r safon', dyna oedd gan lawer i'w ddweud.

Yn wir gwelwyd y safon yn y gwasanaeth yng Nghapel Coch, Llanberis ac yn y Sioe Gerdd, 'Babi Bach y Wern' a gomisiynwyd yn arbennig at yr achlysur yma gan Eirug Wyn, un o'n cyn ddisgyblion. Dangoswyd dawn a thalentau ein disgyblion ar eu gorau.

Y naws broffesiynol oedd i'r baneri a'r hysbysfwrdd croesawu wrth i'r gwesteion gyrraedd. Popeth o safon uchel, fel y disgwyl.

Diolch i bawb a ddaeth i rannu'r dathliadau a chofio canrif o wireddu breuddwyd y sawl a sefydlodd Ysgol Brynrefail.





## WYTHNOS EURIG WYN

Sut mae crynhoi a chywasgu cymaint i gyn lleied o ofod?

### Prynhawn Sadwrn

Mae'n siŵr y gallai rhywun meidrol weld yr arddangosfa i gyd mewn awr dda. Ond doedd 'na neb meidrol o gwmpas! Rhyw sbio rhwng siarad a siarad oedd hi! Un o uchafbwyntiau'r arddangosfa yn ddi-os oedd sioe sleidiau Mrs Mary Vaughan Jones. Cronicl ac archif gwerthfawr o dalp o gyfnod yn hanes yr Ysgol.

### Nos Sadwrn

Wn i ddim ai fflwci ai ffawd a'm gosododd i i fwyta gyferbyn â Gwyn Ellis (Boi Phys!) ac Eirlys. Wel, fe gadwodd Gwyn ni i fynd am y noson! - y fi, Pegi, Mair, Gwyndaf, Carolyn a Sos. Wrth dynnu lluniau fideo o bawb oedd wrth y byrddau yn sgloffio y trawodd o fi'n sydyn - ai fi oedd y fenga yn y cinio?

### Nos Lun

Cyrraedd yn gynnar i gael lle i barcio, ond roeddwn i'n rhy hwyr! Y neuadd yn orlawn. Dyma beth oedd noson! A'i llwyddiant oedd y cymysgedd o siaradwyr a'u gwahanol ddulliau ac arddulliau o gyfleu eu neges. O ddarlith ddifyr Rol Williams i berfformiad Emlyn Sherrington. O huodledd Maureen Rhys i gameos bychain perffaith Huw Roberts. O atgofion cynnar Mair Crawia i atgofion diweddar Michael John Williams. Noson i'w chofio a'r cyfan (bron!) yn Gymraeg i gyd.

### Nos Fercher

Beth mwy fedra i ei ddweud? Os dangosodd llwyfannu *Babi Bach y Wern* unrhyw beth o gwbl, fe ddangosodd fod yna dalentau di-ri yn dal i gael eu cynhyrchu yn nalgylch Ysgol Brynrefail. Ac nid talentau perfformio yn unig. Roedd y sioe yn enghraifft berffaith o waith tîm - yn actorion a chantorion a cherddorion; yn griw llwyfan, criw sain a goleuo; adeiladwyr setiau; gwisgoedd a choluro, heb anghofio'r hyfforddwyr dawns a llefaru, y criw cynhyrchu, y cofweinydd a'r gwneuthurwr posteri. Heb anghofio, wrth gwrs, nad ydi byth yn rhy hwyr hyd yn oed i rai athrawon ddangos eu doniau!

### Nos Wener

Os mai darpar dalentau a welwyd nos Fercher nid felly nos Wener. Ar y llwyfan roedd yna gyn-ddisgyblion sydd wedi perfformio ar lwyfannau led-led y byd, ac fel y dywedodd un o'r arweinwyr, y rhyfeddod ydi fod yna gynulleidfa o 500 wedi dewis dod i'r Ysgol i wrando yn hytrach nag aros adre i wyllo *Pobl y Cwm, Coronation Street a Brookside!* Annoeth a dibwrpas fyddai dechrau enwi'r perfformwyr gan i bawb wneud ei ran mor ardderchog a rhoi clo teilwng ar wythnos gyfan o ddathlu. Wythnos i'w chofio wir.

Oes yna rhywun yn ddigon dewr i atgoffa Eifion Jones a'i bwyllgor fod 2001 yn ben-blwydd yr Ysgol yn 101?



Daw'r rhengoedd hyd yr eingion at eu dysg  
eto i dasgu'n wreichion  
ar heolydd gorwelion  
yn sgîl hwyl yr ysgol hon.

*Y Prifardd Dafydd John Pritchard*

## DIOLCH YN FAWR

### Heb gael plât canmlwyddiant?

Archebwch un o'r ysgol cyn  
Tachwedd 17

Maint 8" gydag arfbais yr  
ysgol ac englyn arno i  
ddathlu'r achlysur gan y

Prifardd Dafydd John  
Pritchard arno

Pris £15.00  
Ffôn: (01286) 672381

*Roedd 'na hen  
sgwrsio...*

Annwyl Gyfeillion

Hoffwn ar ran Pwyllgor Canmlwyddiant Ysgol Brynrefail ddiolch am eich cefnogaeth yn ystod dathliadau'r canmlwyddiant.

Ni fuasai'r gweithgareddau a drefnwyd wedi bod gymaint o lwyddiant heb gefnogaeth cyn-ddisgyblion a chyn-aelodau o'r staff, y disgyblion a'r staff presennol, y llywodraethwyr a thrigolion yr ardal.

Diolch i bawb am werthfawrogi cyfraniad Ysgol Brynrefail i'r ardal yn ystod y ganrif ddiwethaf.

Yr eiddoch yn gywir

Eifion Jones

Prifathro a Chadeirydd

Pwyllgor Canmlwyddiant

Ysgol Brynrefail





## DINORWIG

Miss Marian Jones, Minalt, 7 Bro Elidir, Dinorwig. 870292

Camera yn ngofal Gwyndaf Hughes, Glascoed, Llanrug. Ffôn: 677263

ADREF O'R YSBYTY. Croeso adref o'r ysbty yn Llandudno ar ôl llawdriniaeth i Mrs Hannah Mary Roberts, Tŷ'r Ysgol, ac hefyd yr ydym yn estyn yr un croeso i'r Cynghorydd Len Jones - yntau hefyd wedi derbyn llawdriniaeth yn Ysbty Gwynedd. Gobeithio y byddwch eich dau yn gwella o ddydd i ddydd.

LLONGYFARCHIADAU. Estynnwn ein llongyfarchiadau a'n dymuniadau gorau i'r Parch D. John Pritchard a'i wraig, Falmi, ar enedigaeth eu mab, Aled. Boed i chwi eich dau gael iechyd a bendith i fagu'r bychan.

Y GANOLFAN. Ar y 9fed o Hydref cynhaliwyd pwyllgor o'r Ganolfan pryd y derbyniwyd ymddiswyddiad Mrs Karen Jones fel ysgrifennydd.

Er i mi ofyn yn garedig yn yr Eco y mis diwethaf, os oeddych am logi'r Ganolfan, i wneud cais ysgrifenedig yn hytrach na churo drws Tŷ'r Ysgol, yr wyf yn cael ar ddeall fod hyn yn dal i gael ei wneud, ac yn fwy na hynny yr wyf yn deall fod Hannah yn cael ei sarhau gan ambell un. Unwaith

eto ar ran y pwyllgor, gofynnaf yn garedig iawn i chwi gadw at y rheolau. Gobeithio na fydd raid sôn am hyn eto.


Tynnwyd ein sylw hefyd at y ffaith fod y contractwyr a oedd yn gweithio i Dŵr Cymru, dros y ffordd i'r Ganolfan, wedi malu y concrit oedd yn dal y sêl yn ei lle. Fe aethpwyd allan i edrych beth oedd y sefyllfa a gwelwyd fod y ffaith yma yn hollol gywir. Mae llythyr wedi mynd i Dŵr Cymru a chafwyd addewid y bydd y gwaith atgyweirio yn cael ei wneud yn ystod y dyddiau nesaf.

YSTORM 3YDD O HYDREF.

Ar y diwrnod uchod cafwyd diwrnod ystormus iawn, gwynt cryf a glaw. Yr wyf y cyntaf i dderbyn fod y tywydd yn stormus iawn, ac yn derbyn, yn hwyr neu'n hwyrach, y buasai'r trydan yn mynd allan ac, yn sicr ddigon, felly y bu, yma yn Ninorwig ac hefyd yn Neiniolen. Daeth yn ei ôl i Ddeiniolen a Gallt y Foel o gwmpas 10 o'r gloch y nos ond nid felly i Ddinorwig. Yr oedd yn rhaid i ni aros tan wedi 1 o'r gloch

y bore. Tybed pam fod yn rhaid i ni fod yn olaf bob tro? Pa bryd tybed y cawn weld y cynllun a oedd i fod wedi cael ei gwblhau erbyn Mai 1999 yn cael ei gwblhau. Yr wyf

yn derbyn eu bod wedi cael problemau ond, hyd yma, mae eu hamcangyfrif allan o ddau fis ar bymtheg. Faint mwy tybed?



### DRAENOG

Glywsoch chi am y gŵr o Ddinorwig aeth i brynu 'ffelt'

i'w osod dan y carped, a dod adref hefo 'ffelt to'. Dyn 'To'r Ysgol' fydd o rŵan.

## CAEATHRO

Clive James, Hafan, Bryn Gwna.

Ffôn: (01286) 679501 (gwaith), 677438 (cartref)

### GWOB'R 'TIR NA NOG'

Ar ddiwrnod argraffu rhifyn mis Medi o'r 'Eco' cyhoeddwyd ar Uned 5 mai Gwenno Huws, Tŷ Mawr yw enillydd Gwobr Tir na Nog 2000 am nofel i blant eleni. Ffuglen Orau'r Flwyddyn dan y teitl 'Ta-ta Tryweryn' oedd nofel Gwenno i blant Cymru. Y cyhoeddwyd yw Gwasg Gomer. GWASANAETHAU'R CAPEL. Disgwylir y gwasanaethau canlynol yn ystod yr wythnosau nesaf:

#### Tachwedd

5: 11.00: Ysgol Sul  
12: 11.00 Ysgol Sul, 2.00 Parch Gareth Maelor;  
19: 11.00 Ysgol Sul, 2.00 Parch Marcus Robinson;  
26: 11.00: Ysgol Sul;

#### Rhagfyr

3: 11.00: Ysgol Sull, 2.00 Parch Dafydd Hughes.

TYNFA MISOL. Enillwyr Tynfa Misol Cymdeithas y Cae Chwarae ar gyfer mis Hydref oedd: £40: (21) Arwel Evans, 8 Rhes Glangwna; £25: (7) M. Hemsworth, The Barn; £15: (71) C. James, Hafan; £5: (73) M. Hughes, Tŷ Mawr.

CYFARFOD BLYNYDDOL. Cynhelir Cyfarfod Blynnyddol Cyffredinol Cymdeithas Cae Chwarae Caeathro am 8 o'r gloch yn yr Ystafell Fwyta, Tafarn Bryngwna, nos Lun, 20 Tachwedd. Bydd rhaid ethol swyddogion a phwyllgor; derbyn y fantolen am 1999/2000; trafod datblygiadau pellach ar y cae chwarae; manylu ynglŷn â chymryd a chadw y man chwarae newydd i blant a rheolau'r Tynfa Misol. Mae croeso i bawb dros 18 oed yn ardal Caeathro a Rhosbach.

## SPAR

### Y STORFA LLANRUG

(Richard a Meirwen Williams)

Ffôn: (01286) 672790

Ar agor bob dydd o'r wythnos at eich gwasanaeth

Nid oes unrhyw dâl am ddanfôn archeb i'ch cartref yn ardal Llanrug

I drin a thrwsio pob math o beiriannau gwnïo  
**MENAI SEWING MACHINE CENTRE**

21 Stryd Fawr  
**PORTHAETHWY**

Ffôn:  
(0248) 714043  
neu C'fon 674520

Edau, Nodwyddau ac ati mewn stoc

### CERBYDAU CLASUROL YR WYDDFA



Cyrhaeddwch mewn steil — mewn cerbyd *Rolls Royce* ar gyfer priodasau, penblwyddi ac achlysuron arbennig eraill

Dylan Griffith, Tros-y-Waen, Penisarwaun

Ffôn: (01286) 871833

## LLEUFER O. ac N. PRITCHARD CANOLFAN CARPEDI WAUNFAWR

Ffôn/Ffacs: 650291



Dewis eang o Welyau a 3P/Suites.

Llenni Venetian a Llenni Roler. 5,000 llathen sgwâr o garpedi mewn stoc — allwch chi fforddio prynu o batrymau?

**GLANHAU CARPEDI GYDA STIMVAK**

Ar agor  
9-7pm  
9-5pm Sadwrn  
Ar Gau  
Sul a Mercher

## Gwesty Dolbadarn LLANBERIS Ffôn: 870277



Am groeso cartrefol Cymreig bob amser Aneuryn Jones a'r staff.



## Ffyrdd Bethel, Seion a Rhiwlas

Bu cryn drafod yn ddiweddar ynglŷn â safon ffyrdd yn ardaloedd Bethel, Seion a Rhiwlas. Mae hefyd boendod ynglŷn â thyfiant sylweddol yn nhrefnidiaeth yr ardal. Yn ardal Bethel, danfonwyd deiseb, gyda chryn gefnogaeth, yn cyfeirio at rai o'r pryderon uchod at y Cyngor Sir. Y wybodaeth ddiweddaraf ynglŷn â'r brif ffordd yw fod troadau Fachell / Gors Bach a Groeslon Tyddyn Hen - lleoliadau sawl damwain - yn cael sylw manwl yn y cynlluniau arfaethedig cyn Ebrill 2001. Ym mhentref Bethel, bydd lôn gefn ystâd Cremlyn hefyd yn cael ei hailwynebu.

Gan gyfeirio yn benodol at broblemau 'mewnol' Bethel, Seion a Rhiwlas, dyfynnir o lythyr a anfonwyd ar Hydref 10, gan y Cynghorydd H.P. Hughes, at Richard Bryn Jones yn Ardan Prifffyrdd y Cyngor Sir.

Cyfeiriaf at eich llythyr dyddiedig 3 Hydref a'r sgwrs a gawsom heddiw ynglŷn â deiseb yn cyfeirio at bryderon diogelwch ffyrdd ym mhentref Bethel.

Mae rhan bwysicaf y ddeiseb yn ymwneud â diogelwch ar y ffordd fawr drwy'r pentref, ond wrth gwrs, i'r perwyl yma rwy'n ymwybodol fod gwaith ar hyn wedi ei gytuno cyn y ddeiseb, ac rwyf ar ddeall fod hyn i'w ddechrau yn y dyfodol agos.

Cyn belled a mae'r pwyntiau eraill yn y cwestiwn buaswn yn awgrymu fod y gwaith canlynol yn cael ei raglennu, gan mai gwastraffu arian fuasai ceisio gwneud gwaith arafu trafndiaeth ar gefn-ffyrdd sydd o safon mor druenus. Dyma beth fuaswn yn ei gynnig:

1. *Safon cefn-ffyrdd y pentref.* Maent eisiau eu hailwynebu. Does dim gwaith wedi ei wneud yma ers haf 1990 fan bellaf.

2. *Ansawdd holl ardal Saron, yn enwedig Stryd Bellaf (Stryd Post).* Rwyf ar ddeall gan Mr G.M. Jones fod y tir yma wedi ei brynu oddi wrth Gwmni Butterfield, ond fod rhwystr arall wedi codi. Dyma'r gwaith i roi blaenoriaeth iddo. Mae'r safle fel ag y mae yn tynnu safon yr ardal a hyder ei thrigolion i lawr.

3. *Wedi cwblhau'r gwaith uchod, dyma'r amser wedyn i gael cynllun arafu trafndiaeth oddi fewn i strydoedd y pentref.*

Mae parcio yn broblem ym mhob tref a phentref yn siŵr. Mae hyn yn amlygu ei hun yn arbennig ym mhentrefi ardal y chwareli. ac mae pentrefi Bethel, Seion a Rhiwlas yn enghreifftiau da. Buasai'r broblem yn cael ei lleihau i raddau helaeth oddi fewn i rannau o Fethel a Rhiwlas pe bai ychydig o waith yn cael ei wneud i dacluso tipyn ar dir diffaith, a thrwy hyn greu mannau parcio oddi ar y ffordd. Awgrymaf ddwy enghraifft o sut i gyflawni hyn ar gost rhesymol:

### Bethel

Ar fynedfa Ystâd y Rhos mae dau lecyn o dir diffaith ym mherchnogaeth y Cyngor. Mae'r safle yn warthus. Drwy i rai ddechrau parcio arnynt mae'n eu gwneud yn fwdlyd a gan fod un o'r llecynnau yn uwch na thy cyfagos mae problemau dŵr yn rhedeg o'r safle yn dechrau amlygu ei hun mewn rhan o'r adeilad.

### Rhiwlas

Yma eto mae problemau parcio yn enfawr, yn enwedig mewn rhannau o'r hen bentref. Mae'r Stryd Fawr (High Street) yn broblem arbennig gyda hel ysbwriel ar adegau yn achosi trafferth drwy i'r cerbyd fethu â chyflawni ei waith. Ym mhen pella'r stryd yma mae eto ddarn o dir diffaith sydd ddim yn gweddu ag amgylchedd yr ardal. Dyma le arbennig i'r cyngor

ddarparu mannau parcio a hefyd dwtio beth sydd yn wir ddolur i'r llygad.

### Seion

Dyma bentref ble does dim wedi ei wneud gan y cyngor ers degawdau i esmwytho bywyd y trigolion. Mae'n wir dweud fod y pentref wedi bod, ar un amser, yn drwm dan ail dai, ond yn awr mae'r lle wedi ei weddnewid, gyda theuluoedd ifanc wedi symud i mewn drwy'r pentref. Mae yno eto sŵn plant yn chwarae.

Rwyf wedi ceisio cael y cyngor i gydnabod hyn drwy roi arwyddion 30 m.y.a. ar gyrion y pentref, hefyd rhoi ARAF / SLOW ar y ffordd. Rwyf ar ddeall na fydd hyn yn bosib am nad yw'r drafndiaeth drwy'r pentref yn ddigon trwm. Rwyf i a'r trigolion yn anghytuno'n llwyr â hyn.

Trwy fy sgwrs â chwi, deallaf y bydd yn bosib rhoi arwyddion SEION, GYRRWCH YN OFALUS / PLEASE DRIVE SLOWLY ar ochr y ffordd, ddwy ochr i'r pentref. Buasai hyn o leiaf yn dangos i rai sy'n symud yn ôl i boblogi a dod a bywyd yn ôl i gefn gwlad ein bod, fel cyngor, yn barod i'w cydnabod a'u cefngoi.

Buaswn yn ddiolchgar o gael eich sylwadau buan ar hyn ac efallai y buasai cyfarfod yn fuddiol i edrych a yw'n bosib cael symudiad i drefnu'r uchod, gan fy mod yn cael fy mhoeni gan alwadau gan wahanol adrannau o'r wasg yn cyfeirio at y ddeiseb o Fethel. Rwy'n teimlo fod hyn yn annheg gan fy mod, ers dros flwyddyn, wedi gofyn am ystyriaeth ar y gwaith y cyfeirir tuag ato yn y ddogfen.

Yn gywir  
Huw P. Hughes

## Merched y Wawr Rhanbarth Arfon

Croeso i bawb i wasanaeth Carolau gydag aelodau'r mudiad sydd i'w gynnal yn Eglwys Ebeneser, Caernarfon nos Sul, Rhagfyr 3 am 7.30 yr hwyr.



**Llanberis 870203**

Ar agor trwy'r flwyddyn ar gyfer priodasau, dathliadau, bedydd, pen-blwydd a phob achlysur arbennig arall. Gallwn drefnu adloniant - disgo a.y.y.b.

Bwrdd Pŵl ar gael.

Bwydlen Bar a Restaurant.

Mae gennym bellach drwydded lawn tŷ tafarn.

## Wavell Roberts CIGYDD

**London House  
LLANRUG**

**Ffôn: (01286) 673574**

**PEN CIGYDD Y FRO**

Yr ŵyn lleol mwyaf blasus  
Selsig cartref

Cigoedd parod i'w bwyta  
Archebion ar gyfer y rhewgist

**MYNWCH Y GORAU  
DEWCH ATOM NI!**

## GWASANAETH ARGYFWNG PLYMIO

24 awr y dydd - 7 diwrnod yr wythnos

# PLUM24CYM

**Gwaith Plymio :: Gosod Ceginau a Bathrwm  
Gwaith cynnal a chadw o bob math**

**Cysylltwch â DOUG JONES, BRON EIFION, WAUNFAWR**

**Ffôn: (01286) 650363 (0797) 0318996 (symudol)**

## Royal Victoria Hotel

LLANBERIS

Mae'r gwesty yn darparu ar gyfer Priodasau, Partïon, Dathliadau ac Achlysuron Arbennig

Cyfleusterau Cynhadleddau a Phwyllgorau

Bwydlen Bar a Chinio Dydd Sul

x

**Ffôn: (01286) 870253**

Alwyn a Sarah Jones

# RACCA PENISARWAUN

★ Blodau ar gyfer pob achlysur

★ Dewis da o Lysiau Fferm

★ Wyau Free Range

Ar agor saitff diwrnod



**870605**

**LLYSIAU AR  
GYFER PICLO**



## LLANBERIS

Gwyneth ac Eifion Roberts, Becws Eryri. Ffôn: 870491.

Camera yn ngofal John Pritchard, Cilfynydd. Ffôn: (01286) 872390



**PRIODAS.** Medi 27, 2000 oedd achlysur priodas Heath Forrester-Addie, mab Awen Forrester-Addie, Hyfrydle, Stryd Warden, Llanberis a Jayne Connell, merch Elizabeth a Frank Connell, The Mill House, Burton-by-Lincoln yn y Swyddfa Gofrestru yn Lincoln.

Hoffai Heath a Jayne ddiolch i bawb am eu dymuniadau da, y cardiau a'r anrhegion a dderbyniwyd. Eu cartref newydd yw 42, Belmont Street, Lincoln.

**UNDEB Y MAMAU.** Yn nhŷ Sant Padarn y cynhaliwyd y cyfarfod misol o Undeb y Mamau Eglwys St Padarn, bnawn dydd Mawrth, 3 Hydref. Mrs Nan Owen gymerodd y gweddïau agoriadol. Mrs Nancy Eva Jones, Taliesyn oedd ein gwraig wadd a chafwyd amser diddorol iawn yn ei chwmmi yn dangos ei gwaith llaw ei hunan mewn brodwaith a phwyth croes o wahanol wledydd y byd roedd hi a Ralph wedi bod ar eu gwyliau ynddynt dros lawer blwyddyn. Gwaith cain iawn o 26 o wahanol ardaloedd, i gyd wedi eu fframio, roeddynt yn werth eu gweld.

Trefnwyd i gael trip y mis nesaf. Glenys ac Audrey oedd yn ymorol am y lluniaeth a diolchwyd iddynt hwy a Nancy gan Mrs Bet Hughes a Mrs Kathleen Williams yn eilio. Mrs Bet Hughes oedd enillydd y raffl. Diwedddwyd drwy adrodd y Gras.

**PLAS PENGWAITH.** Dymuniadau pen-blwydd hapus i'r trigolion a fu'n dathlu y mis yma, sef Mrs Dilys Evans; Mrs Beryl Jones; Mr Tomos Williams a Mr Thomas A. Pritchard.

Yn yr ysbyty ar hyn o bryd mae Mr J.H. Williams a Mr O.G. Jones, ac mae pawb yn dymuno gwellhad buan iddynt.

Wedi ein gadael ar ôl cyfnod hapus yma mae Mrs Bessie Owen, Maes Padarn. Mae wedi bod yn yr ysbyty am gyfnod ac rwan wedi ymgartrefu yng Nghartref Bron Eryri ac mae pawb yma yn dymuno pob hapusrwydd iddi yno.

Rydym yn brysur yn paratoi am y Nadolig eto eleni ac mae ein Raffl Nadolig ar gael yn y Cartref a

gan rai o'r staff. Mae gwobrau da iawn eto y flwyddyn yma: teledu lliw portabl; 2 noson yng Ngwesty Tony ac Aloma; cinio i ddau yng Ngwesty Victoria, Llanberis; Hamper Nadolig ac amryw o wobrau eraill. Hoffem ddiolch i bawb am eu cyfraniad i'r raffl.

Bydd y Ffair Nadolig yn cael ei chynnal ar Ragfyr 9, a bydd Sion Corn yn y grotto a'r raffl yn cael ei thynnu yn y ffair.

Ar Dachwedd 5 bydd arddangosfa Tân Gwylt ar lawnt y Cartref eto eleni os bydd y tywydd yn caniatau.

Dydd Mercher, 11 Hydref cafwyd y pleser o gyflwyno Mrs M. Mathews, cyn-Swyddog y Cartref yma ym Mhlas Pengwaith gyda rhodd o ddarlun o'r ardal i gofio am ei hamser yma gyda ni. Cyflwynwyd hefyd fased o flodau a chafwyd buffet bach yn y lolf a gyda'r trigolion a'r staff.

Hefyd fe gafwyd arddangos y darlun o'r ardal gan Mrs Mathews ar fur yr alcof i gofio am un o weithwyr y Cartref, sef Anne Ellis a fu'n gwasanaethu yma am rai blynyddoedd.

Dydd Mercher 18fed cafwyd bore difyr yn y lolf a yng nghwmni Jill Padfield (cantores) a Tim Rhys Evans yn chwarae'r piano.

Diolch i Mrs Beryl Jones Plas Pengwaith am ei rhodd i'r Eco er cof am ei gŵr, sef Mr Robert William Jones a fuasai wedi dathlu ei ben-blwydd yn 80 oed ddiwedd mis Medi.

**EGLWYSI ST PERIS A ST PADARN.** Cynhaliwyd cyfarfod o'r Gymdeithas yn Angorfa nos lau, Hydref 5 dan lywyddiaeth Mrs Anne Parry-Jones. Dechreuwyd trwy weddi gyda Mrs Nan Owen yn arwain.

Cafwyd noson arbennig o ddifyr ac addysgiadol yng nghwmni Mr Dafydd Whiteside Thomas o Lanrug, yn trafod yr hen arferiad erbyn hyn o 'gerdded y terfynau' rhwng y plwyfi, a'r helynt fu, yn arbennig rhwng plwyfi Llanddeiniolen a Llandegai. Rhaid oedd, yn ôl yr arferiad, gwblhau'r ddefod yma yn y tridiau yn diweddu ar Ddydd lau Dyrchafael.

Derbyniwyd negeseuon oddi

**Pa un o'r rhain sydd bwysicaf?**

**YSWIRIO EICH Tŷ (i arbed colled i chi);**

**YSWIRIO EICH CAR (i arbed colled i chi); neu**

**YSWIRIO EICH BYWYD (i arbed colled i'ch teulu)**

**Cysylltwch â'r isod i weld mor rhad yw cost yswiriant gyda CDH**

**Andre (Bethel/Llanberis)**

**Bryn (Môn)**

**Euryn (Caernarfon a'r cylch)**

**John Eifion (Penisarwaun)**

**CDH**

**Ymgynghorwyr Ariannol Annibynnol Lleol (sefydlwyd 1974)**

**Ffôn: (01248) 355055**

wrth amryw o'r aelodau oedd wedi colli anwyliad yn ddiweddar, ac eraill oedd heb fod yn mwynhau iechyd rhy dda.

Diolchwyd i'r siaradwr ac i'r gwestwagedd, Mrs Audrey Evans a Mrs Buddug Wakeham gan Mrs Heulwen Edwards. Enillwyd y raffl gan Mrs Bet Hughes.

**LLONGYFARCHIADAU** i Dr Eleri Wyn Lewis o Gaerdydd ar gael ei dyrchafu i'r swydd o fod yn Bennaeth Addysg y BBC yng Nghaerdydd. Merch yw i Mr Cledwyn Parry a'r ddiweddar Mrs Betty Parry, Glyder, Ffordd Capel Coch.

**LLONGYFARCHIADAU** i Rhian ac Ian o'r Barri ar enedigaeth eu mab ar Fedi 24, Owain Harri, brawd bach i Tomos Dafydd ac ail ŵyr i Gwen ac Oliver, 93 Maes Padarn, Llanberis.

**LLONGYFARCHIADAU** i Rheon Wyn Roberts, Ty'n Llwyn, 22 Stryd Goodman ar ennill HND mewn Rheolaeth Cefn Gwlad ym Mhrifysgol Cymru Aberystwyth.

**DYMUNA** Mrs Ann Roberts, Ty'n Llwyn, 22 Stryd Goodman ddiolch yn fawr i'w theulu, ffrindiau a chymdogion am y cardiau, blodau, rhoddion a'r galwadau ffôn a dderbyniodd tra'n cael llawdriniaeth yn Ysbyty Gwynedd yn ddiweddar.

**DYMUNA** Audrey, 2 Bryniau Gerddi ddiolch yn ddiffuant i'w theulu a'i ffrindiau am y caredigrwydd a ddangoswyd iddi tra yn yr ysbyty ac ar ôl dychwelyd gartref. Diolch hefyd i aelodau Eglwys St Padarn am eu ffyddlondeb yn eu hymweladau a'u galwadau ffôn. Diolch i bawb.

**DIOLCH.** Dymuna Nesta, Arwel a'r teulu ddatgan eu diolch i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad a charedigrwydd a ddangoswyd tuag atynt yn eu profedigaeth o golli Tommy. Hefyd diolch o galon i'r staff yn Ward Cadnant, Bryn Seiont am y gofal a roddwyd i Tommy yn y tair wythnos olaf.

Diolch hefyd i'r Parch Phillip Hughes am y gwasanaeth ac i Mr Myrddin Pritchard a Mr Gwynndaf Jones am y trefniadau. Diolch hefyd am y rhoddion hael a dderbyniwyd at Uned MacMillan, Ysbyty Bryn Seiont. Diolch yn fawr iawn.

**DYMUNA** Elizabeth a Cymro ddiolch o galon i bawb yn Llanberis a'r cylch am y dymuniadau da iddynt yn eu cartref newydd yn Sir Fôn.

**DYMUNA** Stanley Jones, Dolbadarn ddiolch yn fawr iawn i'w deulu a ffrindiau am y galwadau ffôn a'r cardiau a dderbyniodd tra yn yr ysbyty yn ddiweddar.

Diolch hefyd i staff Wardiau Dulas ac Ogwen, Ysbyty Gwynedd am eu gofal.

**HOFFAI** Bedwyr Owen Davies, Bryn Tirion, Ffordd Tŷ Du ddiolch yn fawr iawn am yr anrhegion a dderbyniodd ar yr achlysur o fod yn was i Frenhines Carnifal Llanberis 2000.

**DYMUNA** Sara Elisabeth, morwyn Carnifal Llanberis 2000 ddiolch yn fawr iawn i'w theulu, ffrindiau a chymdogion am yr holl arian a'r anrhegion a dderbyniwyd yn ystod y Carnifal a hefyd diolch yn fawr i Christine Rose am ei holl waith o drefnu.



## £750 I'CH CLWB CHI!

Cynllun grantiau bychain yw Cist Cymunedol SPORTLOT sydd wedi'i ddylunio gan Gyngor Chwaraeon Cymru i gynorthwyo clybiau chwaraeon a sefydliadau lleol.

Prosiectau datblygu chwaraeon sy'n creu cyfleoedd chwaraeon newydd, ychwanegol neu well fydd yn cael eu hystyried am grant.

Rhoddir blaenoriaethau i gynlluniau sy'n canolbwyntio ar ddarpariaethau ar gyfer plant a phobl ifanc, merched a phobl gydag anabledd.

Uchafswm y grant fydd £750 i bob cais.  
Mae £45,000 ar gael i Wynedd eleni.

Gwneir penderfyniadau am y grantiau gan Bwyllgor Gwynedd o'r Gist Gymunedol a Chyngor Gwynedd sydd yn gweinyddu'r cynllun yn lleol.

**PEIDIWCH AG OEDI – EWCH AMDANO!**

Mae pecynnau gwybodaeth sy'n cynnwys ffurflenni cais ar gael gan Gwyneth Hughes, Cyngor Gwynedd ar  
(01286) 679 461



## BRYNREFAIL

Mrs Lowri Prys Roberts-Williams, Godre'r Coed. 870580

**SEFYDLIAD Y MERCHED.** Dan lywyddiaeth Elinor Williams, daeth yr aelodau ynghyd i'r Festri nos Lun, Hydref 16. Darllenwyd llythyr y mis gan yr ysgrifenyddes, Mrs Pat Jones, a chafwyd trafodaeth gan yr aelodau ar nifer o agweddau, yn eu plith y tâl aelodaeth sydd yn gynyddol godi o flwyddyn i flwyddyn. Trafodwyd hefyd rai cynlluniau sydd dan sylw i godi arian at weithgaredd penodol 'Prosiect Llwybr 2001'. Pasiwyd i drefnu'r noson arbennig honno yn ystod gwanwyn 2001.

Gwraig wadd y noson oedd Lesley Evans o Lanrwst yn arddangos y grefft unigryw o baentio gyda chŵyr llosgliw. Daeth gyda hi hefyd amrywiol enghreifftiau o'i gwaith yn cynnwys cardiau cyfarch a darluniau wedi eu fframio. Paratowyd y baned gan yr ysgrifenyddes ac enillwyd gwobr y mis, rhoddedig gan Anita Long gan Alice Williams. Bydd y cyfarfod nesaf, sef y Cyfarfod Blyneddol nos Lun, Tachwedd 20 gyda Pat Parry, Waunfawr, V.C.O. yn bresennol.

**SYMUD CARTREF.** Rydym yn estyn croeso i Berwyn a Caryl Davies a'u mab bychan, Ynyr, sydd wedi ymgartrefu yn 4 Tai Orwig. Mae'r cartref yn aros yn yr un teulu ag y bu ers blyneddoddd lawer gan fod Caryl yn wyres i Mrs Maggie Williams a'r diweddar Mr Hugh Williams.

**DYMUNWN** yn dda i Elfyn a Vera Williams, Rhianfa, Penllyn sydd wedi symud i fyw i Lanllyfni a chroesawu yn gynnes y teulu newydd sydd wedi cartrefu yn Rhianfa.

**DIOLCH.** Dymuna Robert Mark Owen, 1 Ffrwd Madog ac Annie Marie Williams, 35 Dol Elidir ddiolch yn fawr am y cyfarchion a'r rhoddion ar achlysur eu dyweddaiad yn ddiweddar.

**YR EGLWYS BRESBYTERAIDD CYMDEITHAS Y CAPEL.** Nos Iau, Hydref 12 cynhaliwyd cyfarfod olaf y tymor o'r Gymdeithas yn y Festri. Cadeirydd y noson oedd Mr Gwyn Hefin Jones, Rhandir ac roedd y myfyrdod dan ofal Mrs Jennie Roberts, 2 Ffrwd Madog. Croesawodd y Cadeirydd Mr

Gwyn Roberts o Hufenfa De Arfon i roi sgwrs dan y teitl 'Blasu Caws'. Drwy gyfrwng fideo cafwyd darlun cryno a diddorol o'r modd y mae'r Hufenfa yn cael ei rhedeg a'r datblygiadau niferus sydd wedi digwydd dros y blyneddoddd yn y cynnyrch a ddaw o'r ffatri. I derfynu'r noson cafwyd blasu pedwar math o gaws arbennig iawn, prif gynnyrch y ffatri lwyddiannus hon, ac sydd a marchnad helaeth iddo yng ngwledydd Prydain a thramor. Diolchwyd yn gynnes i'r siaradwr gwadd gan Mr Maurice Jones, Meillionen. Paratowyd y lluniaeth gan Ifanwy Jones ac Iris Rowlands.

**YR WYL DIOLCHGARWCH.** Brynhawn Sul, Hydref 15 cynhaliwyd yr oedfa flynyddol o ddiolch wedi ei threfnu eleni gan Mr Gwyn Hefin Jones. Roedd nifer helaeth wedi troi i mewn a chafwyd gwasanaeth bendithiol. Agorwyd y gwasanaeth gyda phlant yr Ysgol Sul, Caryl ac Awen Jones a Rhian ac Anna George yn cyflwyno eu dramodig ar y thema 'Diolch am y Gair' gyda rhagarweiniad gan Norman a Lowri Roberts Williams. Cymerwyd rhan ymhellach mewn gweddi a darlenniadau o'r Ysgrythur gan Mr Richard Wyn Evans, Mrs Jennie Roberts, Miss Alice Williams a Mrs Mair Wyn Davies. Cyflwynwyd emynau gan Mrs Jennie Hughes a Mrs Einir Gwyn a myfyrdod ar gyfer Gŵyl y Diolchgarwch gan Mrs Ifanwy Jones. Cafwyd datganiad cerddorol gan Mr Robert John Williams a daeth yr oedfa i ben gyda chyfraniad gan Mr Emyr Williams.

**OEDFAON TACHWEDD.** Disgwylir y canlynol i wasanaethu yn ystod Suliau Tachwedd:  
5: Parch Gwynfor Williams, Caernarfon am 5.30. Gweinyddir y Sacrament o Swper yr Arglwydd.  
12: Parch Trefor Jones, Caernarfon am 5.30;  
19: Parch Emrys Thomas, Caernarfon am 2.00;  
26: Mr Merfyn Jones, Caernarfon am 5.30.

Cefnogwch ein  
Hysbysebwyd



**SLIM CHWIM MEWN DIM!**  
heb lwgu na chwysu

Cael gwared o'r bloneg a'r bol  
Yn llesol natruiol, di-lol

**CREDWCHI! HOLWCHI!**  
ffoniwch (01286) 830609  
— TENEUWCH —  
**SLIM CHWIM MEWN DIM!**



**CARPEDI GERAINT OWEN**

**GWERTHWR CARPEDI, TEILS CARPED a FEINYL**  
CANNOEDD O DDEWIS O BATRYMAU A RHAI MEWN STOC

FFONIWCH UNRHYW AMSER:

**WAUNFAWR (01286) 650552**

## Llythyrâu

Annwyl Olygydd,

### Arian i Fudiadau Plant

Mae arian ar gael gan Mantell Gwynedd i fudiadau plant dan 8 oed. Mae'r arian wedi ei benodi gan y Cynulliad Cenedlaethol i'w ddosbarthu i ehangu neu ddatblygu gwasanaethau plant. Dylai'r grant fynd at brynu eitemau cyfalaf bach fel teganau, neu refeniw un waith ac am byth, e.e. hyfforddiant. Bydd blaenoriaeth i deuluoedd difreintiedig neu dan anfantais, ar incwm isel neu gydag anghenion arbennig.

Ymhlith y 40 o grwpiau a dderbyniodd grant y rownd ddiwethaf roedd Cylch Meithrin Rhydymain, Cricieth, Myn ydd Llandygai, Aberdaron a Thywyn i brynu teganau i'r cylchoedd.

Ffoniwch neu anfonwch am fwy o wybodaeth a ffurflen gais at Mantell Gwynedd, Caernarfon (01286) 672626 neu Ddolgellau (01341) 422575. Dyddiad cau Tachwedd 30, 2000.

Am fwy o fanylion cysylltwch â Meinir Jones (01286) 672626 neu Catrin Euros (01341) 422575.

### Halen y Ddaear

Ydych chi'n adnabod rhywun sydd wedi gweithio'n ddiwyd gyda phobl ifanc yn eich cymuned am flynyddoedd? Ddylai'r person gael ei wobrwyo am y gwaith yma? Wel, dyma'ch cyfle chi i dalu teyrnged iddo/iddi.

Yn flynyddol rhoddir Medal Syr T.H. Parry-Williams gan Eisteddfod Genedlaethol Cymru i anrhydeddu person sydd wedi gweithio am flynyddoedd gyda phobl ifanc yn eu milltir sgwâr. Os am enwebu rhywun ar gyfer y Wobr, yr unig beth sydd angen ei wneud yw cysylltu â Swyddfa'r Eisteddfod, 40 Parc Tŷ Glas, Llanisien, Caerdydd CF14 5WU neu ffoniwch 029 20 763777 er mwyn cael ffurflen enwebu a'i danfon yn ôl atom erbyn 31 Ionawr, 2001.

Dyma'ch cyfle chi i ddangos eich gwerthfawrogiad. Codwch y ffôn ac enwebwch halen y ddaear eich cymuned chi.

Am wybodaeth pellach cysylltwch â'r Cyfarwyddwr, Swyddfa'r Eisteddfod, 40 Parc Tŷ Glas, Llanisien, Caerdydd, CF14 5WU neu ffoniwch 029 20 763777.

## CYNGERDD

### Band Pres Cymdeithas Adeiladu Swydd Efrog

(Yorkshire Building Society Brass Band)

un o'r Bandiau Gorau yn y byd

Pencampwyr Ewrop

— a —

### Seindorf Arian Deiniolen

**Nos Sadwrn 18 Tachwedd**  
**Theatr y Pafiliwn, Y Rhyl**

Yr elw i gyd at Apêl Eilir Wyn Williams  
— cyn aelod o'r ddau fand sy'n dioddef o MS

Tocynnau £8.50 a £9.50

drwy ffonio: (01745) 330 000 (Theatr)  
neu (01286) 675 434 (Dylan Williams)

Hefyd: OCSIWN at yr un achos:

**MYNYDD GWEFRU**

**LLANBERIS**

Manylion pellach:

Meirion Jones (01286) 870 452



## Ar Ben Arall y Lein

Mae'n rhaid fod cnau ac eogiaid yn mynd hefo'i gilydd, dyma'r flwyddyn gyntaf ers blynyddoedd i mi weld y coed cyll yn pwysu, a'r flwyddyn yma yw'r tro cyntaf ers 1993 i ni weld rhediad da o eogiaid i'r Seiont. Os buasai unrhyw un mewn busnes yn dweud fod ei elw wedi cynyddu dros 700% dros y flwyddyn, mi fuasai'n fusnes llewyrchus, ond dyma beth sydd wedi digwydd hefo'r eog. Yn ystod 1999, 11 a ddaeth i'r rhwyd dros gydol y tymor. Yn barod y flwyddyn yma rwyf wedi derbyn gwybodaeth gan yr aelodau fod 71 wedi eu dal, ac nid yw hyn y cyfrif llawn.

Beth yw'r rheswm medda chwi? Un ffactor bwysig iawn yw, wrth gwrs, fod y peiriant tynnu ffosffates sydd ynghlwm â gwaith carthffos Llanberis wedi bod yn gweithio yn iawn ers Mai 1998. Dyma'r flwyddyn hefyd i ni ddechrau magu eogiaid bach yn y ddeorfa yn Crawia. Roedd dwy ran i'r cynllun yma: gollwng rhai miloedd o'r cywion a oedd newydd ddechrau bwyta i'r afonydd Gafr a Pheris uwchben Pont y Gromlech; yr ail ran oedd magu oddeutu 5,000 arall mewn tanciau pwrpasol yn y ddeorfa tan eu bod yn cyrraedd y cyfnod yn eu bywyd a adnabyddir fel gleisiaid neu sils, yr amser pan maent yn mudo i'r môr. Drwy wneud hyn mae'n bosib cwtogi'r amser rhwng yr eog bach yn deori a'r amser pan mae'n dod yn ôl o'r môr i'r afon i ddwy yn lle tair neu bedair blynedd.

Blwyddyn 2000 oedd y tro cyntaf i ni obeithio gweld unrhyw arwydd fod yn cynllun yn gweithio. Wel, rwy'n meddwl fod canlyniadau'r tymor yn sefyll drostynt eu hunain. Rhaid rhoi diolch i hogiau'r ddeorfa am eu gwaith ardderchog. Mae'r canlyniadau yn dangos pa mor broffesiynol yw'r aelodau yma sy'n gwneud y magu, a hynny i gyd yn

wirfoddol. Mae oddeutu 97% o'r stoc wedi byw i'w rhoi allan yn yr afon. Rwy'n gwybod fod canlyniadau rhai deorfau yn y wlad, a'r rheiny yn rhai proffesiynol, yn cael trafferth i gyrraedd y nod o 65%.

Mae'n arferiad i gyhoeddi enwau'r aelodau o'r ardal sydd wedi dal rhywbeth ond, os wyf wedi gadael unrhyw un allan, yna rwy'n ymddiheuro ymlaen llaw. Dyma nhw felly: James Carr, Llanrug a'i frawd Steve (nawr yn byw yn Bontnewydd) - 5 yr un a'r mwyaf yn 10 pwys. Gwyn Jones, Caernarfon - 4 a'r mwyaf yn 8 bwys. Norman Dooley, Cecil Hope a Wyn Parry, Caernarfon a Clifford Thomas, Y Felinheli - tri yr un a'r mwyaf i Wyn Parry yn 15 pwys a 4 owns: hwn yw'r eog trymaf o ddyfroedd y clwb a bydd Wyn yn dal Tlws Tommi Lovell am flwyddyn.

Dr. Robin Parry, Llanberis; Norman Barnes, Caernarfon; Richard Rowlands, Waunfawr; Brynley Roberts, Llanberis; Dave Spencer, Bae Colwyn - dau yr un a'r mwyaf o'r rhain oedd 10 pwys i Dr. Parry.

O'r rhai sydd wedi cael un yr un dyma'r enwau a ddaw i'r cof, a dyma fi wedi pechu eto: Gwynfor Jones Bethel, (mae si yn y fro mai dim ond pob blwyddyn naid mae Jos yn cael sgodyn); Dr. D. Williams Benllech, Nigel Tucker Wirral, Oscar Evans Bethel, Bert Japheth Caernarfon ac, wrth gwrs, rhaid peidio anghofio'r awdur. Fe fydd yn rhaid mynd a'r sgodyn yma i Landudno

ddiwedd y mis i gael ei fygu at y Nadolig. Rhaid rhoi terfyn arni neu ni fydd digon o le yn y papur, ond os caf mi gaiff y gweddill eu henwi yn y rhifyn nesaf.

Mae cryn dipyn o siarad wedi bod am ymddygiad cyn reolwr un o westai adnabyddus Caernarfon yn ddiweddar tuag at ein hiaith. Wel, nid Caernarfon ydi'r unig le - be feddylwch chi o hyn? Ar ddechrau Medi roeddwn mewn cyfarfod o Bwyllgor Amgylchedd Ardal (Gogledd Cymru) o Asiantaeth yr Amgylchedd. Roedd Cadeiryddwraig newydd wedi ei phenodi a'r peth cyntaf yr oedd eisiau ei wneud oedd gwneud i ffwrdd â'r ddarpariaeth cyfieithu, felly buasai'r pwyllgor yn cael ei gynnal yn uniaith Saesneg.

Fel y disgwylir roedd gwrthwynebiad cryf ac ni chafodd ei ffordd ei hun, a minnau, fel un o hogia Deiniolen, yn meddwl fod y *Welsh Not* wedi diflannu ers tros ganrif. Wel, fel y buasai'r hen Sais yn ddweud *Apparently Not*.

Ganol mis Hydref fe gollwyd un o aelodau'r clwb, sef Aled Evans, Bron y Garth, Caernarfon, ond fel Aled Cwm yr adnabwyd ef yn y fro gan mai yng Nghwm-y-glo y bu'n byw am y rhan fwyaf o'i oes. Roedd Aled ychydig fisoedd yn fyr o weld ei 80 oed. Fo oedd aelod hynaf o Bwyllgor Gwaith y Gymdeithas ac roedd ganddo, hyd y diwedd, ddiddordeb arbennig yn ein dyfroedd, a

hefyd i wneud yn sicr ein bod ni, y llafna ifanc 'ma, fel y galwai ni yn peidio mynd dros ben llestri hefo un peth neu'r llall. Bydd colled fawr ar ei ôl, nid yn unig i ni fel cydbysgotwyr ond yn fwyaf oll gan ei deulu. Fe gladdwyd Aled ar ddiwrnod olaf y tymor, sef Hydref 17.

Mae'r Gymdeithas yn chwilota am unrhyw beth sy'n ymwneud â 'sgota yn yr ardal. Os oes gan unrhyw un lun o bysgod neu bysgotwyr, neu hen gêr pysgota buaswn i neu un o aelodau'r pwyllgor yn falch o gael golwg arnynt. Dyma'r aelodau: Llanberis - Dr Robin Parry neu Bert Parry; Deiniolen, Cwm-y-glo a Brynrefail - Maurice Jones, Penllyn; Llanrug - Gwynfor Jones neu Ernie Jaques; Bethel - Gwynfor a Gwyndaf Jones neu rhowch ganiad i mi ar (01248) 670666. Buasai unrhyw wybodaeth hefyd am y torgoch yn eithriadol o dderbyniol.

H.P. Hughes

**MAE'R  
SAMARIAID  
YN GWRANDO  
YN ABBEY ROAD  
BANGOR  
(01248)  
354646**

## ARDDANGOSFA

a

## FFAIR GREFFTAU

Neuadd Ysgol Brynrefail

Dydd Sadwrn

Rhagfyr 2il

(0.00am - 4.00pm)

Croeso i grefftwyr lleol

arddangos a gwerthu eu nwyddau

cyn y Nadolig

Mwy o fanylion:

(01286) 673 515

## G. EVANS

ARBENIGWYR TRWSIO  
CYRFF CEIR

Uned 4, Stad Ddiwydiannol Brynafon, Llanrug

(01286) 678030

## R. M. (DIC) PARRY

PEINTIWR AC ADDURNWR  
PRISIAU RHESYMOL

TAWELFA, PENISARWAUN

Ffôn: (01286) 870846

COLEG MENAI YN CYFLWYNO

## 'SARJANT SOWTH SIWPYRSTAR'

Pantomeim newydd sbon  
ar gyfer y teulu i gyd

THEATR GWYNEDD, BANGOR

P'nawn Sadwrn, Rhagfyr 16eg, 2.00yh

Nos Fercher, Rhagfyr, 20fed 7.00yh

P'nawn Iau, Rhagfyr 21ain, 2.00yh

P'nawn Gwener, Rhagfyr 22ain, 2.00yh

SWYDDEA DOCYNNAU

01248 351 708



## RYGARUG

### Cynllun newydd sbon i bobl ifanc!

Mae Rygarug yn gynllun newydd sbon yn ardal Bro'r Eco, fydd yn cynnig gweithdai wythnosol ym myd y celfyddydau perfformio a thechnoleg aml-gyfrwng i blant a phobl ifanc rhwng 7 ac 18 oed. Lleolir y sesiynau yn Stiwdio Capel Mawr Llanrug - canolfan ddelfrydol i gynnal y math yma o weithgareddau - ac ar hyn o bryd mae Rygarug yn anelu at lansiad swyddogol yng Nghapel Mawr ar ddydd Sadwrn, Rhagfyr 2, 2000. Mae'n fwrriad cynnal blwyddyn o weithgareddau codi arian, arbrosi gyda'r gweithdai a mesur y diddordeb lleol, cyn cychwyn ar y cynllun llawn ym mis Hydref 2001.

Y gobaith yw y bydd digon o bobl ifanc yn cael y cyfle i ddysgu sgiliau newydd ym myd drama, cerdd, dawns ac ysgrifennu, yn ogystal â thechnoleg fideo, er mwyn sianelu eu hegri a'u talent greadigol, a hynny o dan arweiniad tiwtoriaid profiadol a phroffesiynol. Pinael y sesiynau fydd nifer o berfformiadau cyhoeddus, rheolaidd, i'w cynnal yn Ysgol Uwchradd Brynrefail.

Ar hyn o bryd mae holiaduron wedi eu dosbarthu o blith plant a phobl ifanc yr ardal, yn mesur eu diddordeb ac yn cynnwys cystadleuaeth Logo Rygarug. Bydd gwobr o £100, ac fe fydd enw'r enillydd yn cael ei gyhoeddi ar ddiwrnod y lansiad.

Mae Rygarug wedi llwyddo i sicrhau cefnogaeth tri chefnogwr o sylwedd, sef Bryn Terfel, Dafydd Wigley AS/AC ac Eurig Wyn ASE, pob un yn gefnogol iawn i'r fenter ac yn barod i awn i helpu.

Mae Rygarug ar hyn o bryd yn ceisio am nawdd gan nifer o sefydliadau, ond fe fyddai'r pwyllgor rheoli yn falch iawn o glywed gan unrhyw un a fyddai'n dymuno helpu naill ai

### Llythyr

Annwyl Olygydd

Buaswn yn ddiolchgar pe gallech drwy gyfrwng yr Eco ddatgan gwerthfawrogiad pawb i'r Pwyllgor fu'n gweithio mor galed i sicrhau wythnos mor lwyddiannus i ddathlu canmlwyddiant yr ysgol

Un o'r cyn ddisgyblion.

hefo'r lansiad ar Ragfyr 2 neu hefo'r sesiynau wythnosol, ac yn arbennig hefo syniadau ar sut i godi arian, oherwydd fe fydd cefnogaeth rheini yn holl bwysig i lwyddiant y prosiect. Cost y prosiect i bob aelod fydd £1 y sesiwn, ac fe fydd rhaid cyfyngu rhywfaint ar nifer yr aelodau yn ystod y flwyddyn gyntaf. Felly peidiwch ag anghofio, os ydych chi'n barod i helpu mewn unrhyw ffordd, ffoniwch (01286) 871686.

### Brodor o Ddinorwig yn agor stôr ddodrefn newydd yng Nghaernarfon

Mae cyn reolwr y Nelson, Caernarfon, Mr Noel Perkins, am agor stôr ddodrefn newydd yn hen dref Caernarfon. Bydd DODREFN PERKINS yn cael ei hagor yn swyddogol ar ddydd Gwener, 10 Tachwedd am 12.00 o'r gloch gan Jonsi, sef cyd ddisgybl Noel yn Ysgol Dinorwig.

### Plant Ysgol Dolbadarn yn dathlu'r Diolchgarwch



## BWS BACH AR LOG

Bws 22 sedd ar gael ar gyfer pob math o logi preifat - nosweithiau allan, partïon, triapiau ac ati. Gwasanaeth personol a thelerau rhesymol gan

## D. P. OWENS

RHIWLAS

01248-361044



## LLANRUG

Eryl Roberts, 3 Bryn Moelyn  
Ffôn: (01286) 675384

DIOLCH. Dymuna Mrs E. Whiteside Thomas ddiolch i'w theulu, cymdogion a ffrindiau am bob cymwasgarwch, cardiau ac anrhegion yn dilyn ei damwain ddiweddar.

### MERCHED Y WAWR.

Croesawodd Phyllis Ellis, y llywydd, aelodau newydd ac anfonwyd cyfarchion arbennig at Mrs Whiteside Thomas sydd wedi torri ei chlun. Rhoddwyd gwybodaeth am y Noson Carolau ym mis Rhagfyr ac o daith gerdded arfaethedig gyda'r llywydd cenedlaethol yn y Gwanwyn.

Mair Penri oedd gwestai y noson ac roedd y gangen yn hynod o falch iddi allu dod draw, gan bod galw mawr am ei sgysiau eleni. Treuliodd Mair gyfnod yn Lesotho gyda Sulwen Davies, yn dod i adnabod y wlad a'i phobl. Aeth y ddwy yno i agor canolfan yr Homemakers, cymdeithas sydd yn dysgu merched y wlad i fod yn hunangynhaliol. Drwy gyfrwng sleidiau a disgrifiadau clir, cawsom flas ar yr hyn a welwyd yn Lesotho a'r tebygrwydd sydd rhyngddi â Chymru. Yn sicr cafodd Mair brofiadau amrywiol tra yn y wlad, o gael mynychu priodas y Brenin i gael ymweld â'r cynulliad ac ysgolion. Diolchwyd iddi gan Mary Roberts. Coluro fydd testun mis Tachwedd.

DYMUNA teulu y ddiweddar Catherine Elinor Lewis o 13 Hafan Elan, Llanrug ddiolch yn ddiffuant iawn am bob arwydd o gydymdeimlad a gawsant yn eu profedigaeth trist, o golli mam annwyl.

Diolch am y llu cardiau ac am y rhoddion tuag at Ganolfan Hafan Elan.

Diolch yn arbennig iawn i'r Parch Wynne Roberts ac i E.W. Pritchard am y trefniadau.

Y SEFYDLIAD COFFA. Dyma enillwyr Raffl 2000:

1. Tocyn Gwyliau Gwerth £100 (rhodd gan Arvon Coaches): Glenda Williams, 3 Afon Rhos, Llanrug; 2. Cinio a gwin i ddau (rhodd gan Seiont Manor, Llanrug): Nia Hughes, 17 Tan Rallt, Rhostryfan; 3. Pryd i ddau (rhodd gan Glyntwrog, Llanrug): Mari Griffith, Bryn Môr, Dinas Dinlle.

Cefnogwch  
ein

Hysbysebwyd



## Yn yr ardd!

## WIL G. ROBERTS

Bod Gwilym, Cwm-y-glo

Ffôn: (01286) 870674

GWASANAETH PENIGAMP AM BRIS RHESYMOL

## AM OFFER Tŷ A GARDD . . .

## FORMAG

41A STRYD FAWR, LLANBERIS

Ffôn: (01286) 872501



# PENISARWAUN

Mrs Ann Evans, Sycharth. Ffôn: (01286) 872407

Camera yn ngofal Gwyndaf Hughes, Glascoed, Llanrug. Ffôn: 677263

URDD ADRAN BENTREF. Bydd yr Urdd yn ail gychwyn ar nos Fercher, Tachwedd 1 o 6.30 - 7.30. Cost ymaelodi eleni fydd £4. Mae croeso cynnes i blant o Flwyddyn 2 i fyny. Bydd oren a bisgedi ar werth am 10c.

YSGOL SUL BOSRA. Dymunir diolch i bawb a gefnogodd y plant yn eu hymdrech i godi arian drwy Ddarllen Tawel Noddedig er budd addysg Katalan Singano, o Kenya. Llwyddwyd i godi dros £170 ar y cyd â phlant Ysgol Sul Ebeneser, Deiniolen. Diolchir i athrawon Ebeneser am eu croeso a braf oedd cael ymuno gyda'n gilydd yn y canu, y cwis, y fideo a'r darllen distaw. Roedd y diod oren a'r bisgedi yn dderbyniol iawn. Rhaid cael cyfarfod fel hyn eto yn fuan.

Bnawn Sul, Hydref 1 o 1.30 - 4.30 cafodd y plant gyfle i ymuno â nifer o aelodau Ysgolion Sul Henaduriaeth Arfon yn Ysgol Brynrefail. Mwynhawyd gweithgareddau celf, cerdd a chwaraeon ac roedd pawb yn amlwg wedi llwyr fwynhau eu hunain, a'r athrawon hefyd. Diolchir i Bwyllgor Henaduriaeth Arfon am amser hynod o gyfeillgar ac amrywiol, a threfnus tu hwnt o gofio fod yn agos i 150 o blant yno. Edrychir ymlaen am Sbrî 2001 rwan!

G W A S A N A E T H  
DIOLCHGARWCH Cynhelir Gwasanaeth Diolchgarwch y Mileniwm, fore Sul, Hydref 29 am 10.00 y bore. Croeso cynnes i bawb. Gwneir casgliad eleni at yr Ysgol Sul er mwyn prynu llyfrau i'r plant.

GWELLHAD. Gobeithio fod Wyn Griffith, Tai Arthur, Waen yn well wedi arhosiad byr yn Ysbyty Gwynedd. Llwyd wellhad hefyd i bawb arall sy'n sâl yn y pentref.

PROFEDIGAETH. Cydymdeimlir yn ddws iawn â Dafydd a Helen a Sharon ar golli brawd i Dafydd, sef Gwilym Owen o Lanrug.

EISTEDDFOD BENTREF. Cynhaliwyd yr Eisteddfod nos Wener, Hydref 20fed yn y Neuadd Gymuned. Ceir manylion yn y rhifyn nesaf. Bu'n Eisteddfod safonol a hwyliog.

PWYLLGOR NEUADD. Cofiwch am yr Ocsiwn Addewidion a gynhelir nos Wener, Tachwedd 17 gydag Arwel Jones fel arwerthwr. Y mae addewidion ardderchog wedi dod i law, megis ffon gerdded addurniedig, prydau bwyd, gwyliau pen-wythnos, petrol, nwyddau car, lluniau, taleb beicio, llyfrau diweddar, hamper nwyddau, pêl-droed a bagiau pêl-droed, gwirodydd, nwyddau trin gwallt, taleb trin gwallt, colur, trin yr ardd, sach o datws, teisen Nadolig, gwaith pwytho, cigoedd a theisen dathlu, a.y.y.b. Pris mynediad: £1 a 50c i blant a phensiynwyr, yn cynnwys paned a thocyn raffl.

Bydd y drysau'n agored am 6.30, felly dowch yn llu i gael bargaen a noson o gymdeithasu a hwyl.

Tynnwyd Clwb Cant Hydref a'r enillwyr oedd 1. Gwyneth Owen, Minffordd; 2. Elinor Jones, Na N'og; 3. Dafydd Evans, Sycharth. PEN-BLWYDDI ARBENNIG. Dywedir fod bywyd yn dechrau yn 40 a bu Selwyn Griffith, Llanrug, Warden Eglwys Santes Helen yn gwneud yn siŵr o hynny gan iddo fwynhau parti arbennig yng nghwmni y Dawnsyr Llinell. Pob dymuniad da Selwyn.

Dywedir mai 70 yw oed yr addewid a llongyferchir Dilys Williams, 7 Llys y Gwynt ar gyrraedd yr oedran hwnnw. Pob bendith i chwithau Dilys a dymuniadau da.

EGLWYS ST HELEN.

Mabolgampau'r Carnifal. Nos Lun, Hydref 2 ar gae'r ysgol fe gynhaliwyd y Mabolgampau. Fe gafwyd cefnogaeth dda i'r noson a braf oedd gweld nifer o blant yr ardal yn mwynhau y cystadlaethau. Fe roddwyd medal i bawb a ddaeth yn gyntaf a gwobr i'r ail a'r trydydd. Er bod y Mabolgampau yn ddiweddar yn cael eu cynnal buom yn lwcus o gael noson braf. Diolch i bawb a gyfrannodd ac a gefnogodd y noson.

Gwasanaeth Conffyrmasiwn. Nos Lun, Hydref 8 am 6 o'r gloch fe gonffirmwyd tri o aelodau ifanc yr Eglwys gan y Gwir Barchedig Saunders Davies, Esgob Bangor.

Hefyd fe gymerwyd rhan yn y gwasanaeth gan Y Parch Phillip Hughes, Deon Gwlad Arfon a Mr Derek Jones, Llanberis. Braf oedd gweld cynulleidfa gref yno i gefnogi'r tri ar gam pwysig yn eu bywydau. Yn dilyn y gwasanaeth roedd gwledd wedi ei pharatoi i bawb gan rieni'r plant yn Neuadd yr Eglwys. Diolchodd Mr B. Griffith i bawb a gymerodd ran yn y gwasanaeth ac i'r rhai a ddarparodd y bwyd.

Diolchgarwch am y Cynhaeaf. Bore Sadwrn, Hydref 14 fe addurnwyd yr Eglwys ar gyfer y Sul. Am 10.30 fore Sul, Hydref 15 fe weinyddwyd y Cymun Bendigaidd gan y Parch. Ganon R. Glyndwr Williams, Bangor. Braf oedd cael ei weld a'i groesawu'n ôl i'r Eglwys ar ôl salwch.

Am 4 o'r gloch fe gynhaliwyd Gosber Cymraeg gyda'r pregethwr gwadd, y Parch Phillip Hughes, Llanberis. Yn ystod y gwasanaeth fe gyflwynwyd rhoddion gan y plant wrth yr allor. Hefyd fe gyflwynwyd eu drama o ddiolch gyda stori y Goeden Fawr yn dwyn ei ffrwyth, a phatrwm y goeden yn ystod y pedwar tymor. Ar ddiwedd hyn cyflwynodd y plant roddion a dymuniadau da a diolch i Mr Hugh Tegid Roberts sydd ar hyn o bryd yn rhoi'r gorau i fod yn athro ysgol Sul oherwydd pwysau gwaith yn y brifysgol. Rydym hefyd fel aelodau yr Eglwys yn diolch iddo a'r athrawon eraill am y gwaith ymroddgar maent yn ei wneud o Sul i Sul. Braf eto oedd gweld cynulleidfa dda yn y ddau wasanaeth a diolch i'r plant am gymryd rhan, ac i'r Parch Phillip Hughes am ei anerchiad ac am ei waith bugeiliol drosom yn ddiweddar.

Ffair Gynhaeaf. Nos Lun, Hydref 16 am, 6.30 o'r gloch yn Neuadd yr Eglwys fe gynhaliwyd y Ffair Gynhaeaf. Fe garai swyddogion yr Eglwys ddiolch yn fawr i bawb a fu'n addurno'r Eglwys; a gyfrannodd ac a gefnogodd, ac am eu cymorth i wneud y ffair yn llwyddiannus a'r wyl yn un gofiadwy.

Cynhelir gwasanaeth yn yr Eglwys bob bore Sul am 10.30 o'r gloch a'r Ysgol Sul ar yr un amser heblaw am wyliau'r ysgol.

CYFEILLION YR YSGOL. Cynhelir noson 'Body Shop', nos Iau, Tachwedd 23 am 8 o'r gloch. Croeso cynnes i bawb i'r noson yn y Neuadd Gymuned.

CINIO'R HENOED. Trefnir Ffair Nadolig er budd Cinio Nadolig yr Henoed nos Wener, Tachwedd 24 am 6.30 yn y Neuadd Gymuned. PLYGU'R ECO. Dymunir diolch o galon i'r criw ffyddlon a ddaeth i blygu rhifyn mis diwethaf o'r Eco. Diolch yn arbennig i'r plant a ddaeth i helpu i blygu a chario'r rhifynnau i Jean Parc Jones. Llwyddwyd i orffen y plygu erbyn 7.15. Diolch i swyddogion Eglwys Santes Helen am gael defnyddio'r Neuadd yn flynyddol fel hyn.

## Y Pistyll Bach

Mi af yn ôl i'r Pistyll bach  
Lle roeddwn gynt yn blentyn;  
Y fan difyrfa yn y wlad  
Lle ffermai'n 'Nhad ei dyddyn.

Ei ddŵr fel grisial gloyw glân  
O grombil bol y mynydd;  
A rhed ei ddŵr yn rhad bob dydd  
O lethrau dwfn y glennydd.

Rwy'n cofio cerdded gyda Nain  
I nôl ei ddŵr yn ddyddiol;  
Roedd yno er ein lles bob dydd,  
Yr hwyr, neu yn blygeiniol.

Anaml iawn y methai hwn  
I ddanfôn ei dderfion;  
Dim ond mewn hafan oedd yn boeth  
Neu eira i'r entrychion.

Roedd hwn yn falm i'r enaid byw,  
Boed dlotyn neu bendefig;  
Un ffordd o ddod a dŵr i'r ty,  
Er hwyrach yn gyntefig.

A diolch wna i'r Pistyll bach  
Am lu o hen atgofion;  
I bawb ddefnyddiai hwn bob dydd,  
Fel llawer o gymdogion.

John V. Morris  
Rhianfa, Clwt-y-bont

## EMYR JONES PLYMAR A PHEIRIANNYDD GWRESOGI



Cynnal boileri nwy,  
olew, tanwydd solat  
a thredio peipiau

44 Glanffynnon, Llanrug  
Caernarfon 673513  
Ffôn Symudol: 07774 496616



## Harddwch eich cartref gyda FFENESTRI CELTIC WINDOWS



Sefydlwyd  
1980

FFENESTRI • DRYSAU • CONSERFATERIS  
CYFLENWYR AWDURDODAU LLEOL

Busnes teuluol gyda blynyddoedd o brofiad  
Ffoniwch - 'dio'n costio dim i gael pris

(01286) 678618 (dydd)

(01248) 670081 (nos)



HEN YSGOL GLANMOELYN  
LLANRUG LL55 2RG



## Gwasanaeth o'r Safon Uchaf am Brisiau Rhesymol



Gwasanaeth Trylwyr  
gan y bobl **BROFFESIYNOL**  
Gwasanaeth Personol Cyfeillgar i **CHWI**  
Y Gwasanaeth Technegol Gorau  
i'ch **CAR**. Cystal â  
Gwasanaeth Prif Ddeliwr  
Felly, pa gar bynnag ydych  
**CHWI** yn ei yrru,  
o Audi i Zastava



Car neu Fan  
Petrol neu Disel  
Carb. neu Chwistrelliad

bydd ein Gwasanaeth  
ni yn arbed eich  
ac yn ymestyn oes eich car



YSTAD CIBYN

CAERNARFON (01286) 673559





## Rhagor o Chwaraeon

### Rygbi a Phêl-droed Y.B.

Mae'r tymor rygbi wedi hen ddechrau ac, am y tro cyntaf mae'r ysgol wedi ymuno â Chynghrair Arfon. Mae cynghreiriau ar gyfer oed-rannau -13, -15 a -18. Dyma'r tro cyntaf i'r ysgol gael tîm yn yr oedran hyn.

Prawf anodd oedd y gêm gyntaf yn erbyn Ysgol Syr Hugh Owen, un o ysgolion traddodiadol 'rygbi'. Gan fod mwyafrif o dîm yr ysgol yn Bl.11 a 12, bydd oedran a maint yn eu herbyn. Serch hynny, mae ysbryd da yn y tîm.

Mr Dylan Jones sy'n hyfforddi'r tîm -13 a daw rhyw 20 yn ffyddlon i'r ymarferiadau amser cinio dydd Mawrth. Nid yw'r un ymroddiad i'w weld gan fechgyn Bl.10, a bydd angen ymarfer a pharatoi ar gyfer y gemau cynghrair. Cafwyd dechreuad da yn erbyn Ysgol Syr Thomas Jones, Amlwch ac enillwyd o 37-5.

Yn y byd pêl-droed mae treialon ardal Arfon wedi eu cynnal. Yn y garfan -13 mae Carl Griffiths, Josh Green a Guto Humphreys. Yn y garfan -14 mae Ceirion Owen ac Eifion Williams. Bydd Gareth W. Jones yn cael treialon am dîm Gogledd Cymru yn Aberystwyth.

### Cystadleuaeth Proffwydo yr Eco

Daeth ymateb da hyd yn hyn - a chryn amrywiaeth. Nid yw'n rhy hwyr i dderbyn ymdrechion. Danfonwch i mi. Gyda llaw, bydd y wobr werth £20, ond gall yr enillydd ddewis un ai tocyn llyfr, recorddau neu i siop benodol.

**PEIDIWCH  
A GORI  
AR STORI  
anfonwch hi i  
Eco'r Wyddfa**

### Clwb Eryri

Yn ei groeso i'r aelodau ar ddechrau'r tymor newydd, talodd y llywydd John Hugh Hughes deyrnged haeddiannol i'w ragflaenydd, John Emlyn Hughes.

Soniodd yn arbennig am absenoldeb oherwydd salwch un o'r aelodau fyddlonaf sef Alwyn Evans, Caernarfon; Mae Alwyn adref o'r ysbyty bellach a dymunwyd iddo adferiad llwyr a buan i'w lawn iechyd. Cyfeiriodd hefyd at brofed-igaeth yr aelod-er-anrhydedd, Cledwyn Williams a gollodd ei wraig, Ceinwen, yn ddiweddar.

Ar nodyn mwy llon, llongyfarchodd Geraint Lloyd Owen ar gael ei urddo â'r wisg wen a J. Norman Davies â'r wisg werdd yng Ngorsedd Beirdd yr Eisteddfod Genedlaethol.

Cadeirydd y noson oedd yr is-lywydd, Dei Tomos, ac mewn sylwadau cwta ac i bwrpas cyflwynodd y llywydd fel siaradwr y noson. Cyfeiriodd at ei brofiadau cyfoethog fel dyn bro a phrifathro cydwbyddol a nododd ei drylwyrdd pan yn paratoi ar gyfer unrhyw amgylchiad. Thema John oedd Rhostryfan ei hen ddyddiau a llawer cyn hynny hefyd. Soniodd yn arbennig am ddewrder y plwyfolion fel y rhai cyntaf bron i wrthwynebu mesur didrugaredd Cau'r Tiroedd Comin. Un o feibion disgleiriaf yr ardal oedd Gruffydd Davies F.R.S.I a fu farw yn 1855. Dyma fathemat-egydd byd-enwog nad anghofiodd y graig y'i naddwyd ohoni er mor hir ei alltudiaeth yn Llundain, a'i gyfraniad gwiw ar lefel genedlaethol a thu draw.

Diolchwyd i'r siaradwr gan R. Gwynn Davies. Wedi trafodaeth ddifyr o'r llawr clôwyd y noson gan y llywydd ar ôl cyhoeddi bod y cyfarfod nesaf ar nos Wener, Tachwedd 3 pryd y cadeirir gan Bert Parry, Llanberis gyda Geraint Elis, Bethel yn traddodi'r araith.

## Medalau Arian i Hogia Llanrug

Tra roedd bro'r 'Eco' yn mwynhau haul annisgwyl ganol Hydref, teithiodd carfan o Redwyr Eryri i niwl trwchus ardal y Peak yn swydd Derby i gymryd rhan ym Mhencampwriaethau Prydain i Rasus Cyfnewid ar Fynydd. Mae'r Bencampwriaeth yn benllanw tymor rhedeg mynydd, a thimau o brif glybiau Prydain yn cystadlu dros bedwar cymal a all gymryd dros bum awr i'w cwblhau.

Eleni, roedd Rhedwyr Eryri wedi anfon tri o dimau i'r gystadleuaeth: tîm merched, tîm dynion a thîm dynion dros 40 oed, gyda chwe aelod ym mhob tîm. Roedd tri o fro'r 'Eco' yn y garfan: Jayne Lloyd (Caeathro) yn y tîm merched, a Gwynfor Owen a Dafydd Thgomas (y ddau o Lanrug) yn nhîm y dynion dros 40 oed.

Roedd 87 o dimau'n cystadlu'n y bencampwriaeth, a chychwynnodd y cymal cyntaf yn brydlon am ddeg o'r gloch y bore gyda ras o tua saith milltir gan gynnwys dringfa i gopa Ruchup Edge a Mam Tor. Yna, ymlaen i'r ail gymal: ras gyffelyb ond cwrs gwahanol, a dringo'r tro hwn i gopaon Nether Tor a Grindslow Knoll. Erbyn diwedd yr ail gymal, roedd tîm dynion hyn Eryri yn y deunawfed safle, ac yn bedwerydd yn eu categori.

Roedd y trydydd cymal yn golygu defnyddio map a chwmpawd i ddarganfod y llwybr cywir ar hyd llwyfandir uchel Kinder Scout, a daeth y pâr a gystadlai i Eryri yn ôl ymhlith y blaenwyr, gan godi'r tîm i'r unfed safle ar ddeg, ac ail yn eu carfan. Ar ddechrau'r cymal olaf o naw milltir, oedd yn ymweld â chopar Ringing Roger, Blackden Moor a Hartshorn, roedd y tîm ddeuddeg munud to ôl i dîm hyn Kendal. Gwnaeth y pâr olaf yn hynod o dda i ennill tri munud arnynt, a chadw eu safle.

Daeth y tîm yn unfed ar ddeg yn y gystadleuaeth, ac yn ail dîm dros 40 oed - gan guro rhedwyr ieuengach y Clwb! Dyma'r tro cyntaf i Redwyr Eryri ennill medalau o unrhyw fath yn y bencampwriaeth arbennig hon, a daeth dwy o'r chwe medal arian i Lanrug.

Annwyl Ddarllenwyr, A yw eich golchwr newydd sbon wedi gollwng galwyni o ddŵr ar lawr y gegin? Ydy eich adeiladwr wedi mynd yn fethdalwr cyn gorffen to'r estyniad? Aethoch chi ar wyliau i'r Costa del Sol a darganfod fod eich bagiau wedi mynd i Hawaii?

Swnio'n gyfarwydd? Yna *Fi sy'n Iawn* yw'r rhaglen i chi. Mewn cyfres a fydd yn cael ei darlledu ddechrau'r flwyddyn nesaf, fe fydd BBC Radio Cymru yn dangos i chi yn union beth yw eich hawliau. Mae'r tîm wrthi'n paratoi eisoes ac yn barod i dderbyn eich galwadau. Felly os oes gennych chi broblem sy'n codi cur pen ac am i ni eich helpu, cysylltwch â Llinos Snelson ar (01248) 3749972 neu e-bostiwch llinos.snelson@bbc.co.uk

Yn gywir

Llinos Snelson

BBC Cymru

Bryn Meirion Bangor

Gwynedd LL57 2 BY

Ffôn: (01248) 374972

Ffacs: (01248) 370808

e-bost: llinos.snelson@bbc.co.uk

### Straeon Y Gwalch

Mae casgliad o straeon Saesneg (20) gan y Gwalch (John E. Williams, Allt Riwith, Pontrhythallt), yn cael eu paratoi ar gyfer eu cyhoeddi yn y flwyddyn newydd gan Wasg Carreg Gwalch, Llanrwst, gyda rhagair arfaethedig gan Jan Morris. Cymeradwywyd y gwaith hefyd gan Jilly Cooper, gyda'r hon y bydd yr awdur yn gohebu.

Mae rhai o'r straeon eisoes wedi ymddangos yn 'Countryman', eraill wedi bod mewn cyhoeddiadau Cymraeg. Ei drosiadau creadigol o'i gyfansoddiadau ei hun ydynt, a'r cefndiroedd yn amrywio o'r lleol i Swyddi Efrog, Caerwrangon a Sussex, a hefyd y Cyfandir, ac yn gymysgfa o'r llon a'r lledf.

Enw'r llyfr fydd 'Rare Welsh Bits'. Meddai John: 'Gobeithio na chaiff ei gamgymryd am lawlyfr coginio!'

**SNOWDONIA PARK**

**WAUNFAWR Ffôn: 650218**

★ Tŷ Rhydd ★ Bwyd Cartref ★

★ Prydau Plant ★ Ystafell Deulu ★

★ Cinio Dydd Sul Traddodiadol ★

★ Cerddoriaeth Fyw ★ Cwrw Go lawn ★

**CO-OP LLANRUG**

\* Bydd y siop yn agor tan 7pm  
bob Nos FAWRTH a Nos IAU


\* Mae defnyddiau garddio - grobags,  
gwrtait etc mewn stoc.

**bwyd a nwyddau o safon  
holl anghenion y ty yn lleol**

**Ffordd yr Orsaf, Llanrug (01286) 672937**



## CROESAIR TACHWEDD



Estyniadau o 1 ar draws yw 3 a 28 ar draws, 1, 8, 10 a 22 i lawr.

### AR DRAWS

3. Un sy'n perthyn i Morus? (8)
8. Agoriad (3)
11. Anifeiliaid anferth o Asia a'r Affrig (9)
12. Byw ar ôl pawb! (7)
13. Drygeiriau o 5 i lawr a thon dymhestlog (8)
14. Mynwes walltgo? Mae'n nwydus (8)
16. Offeryn tynnu onglau (5)
18. Heb fod yn glaf ac yn bodloni a chusan (5)
19. Rhwng y pen a'r corff (4)
21. Glo mân (4)
23. Gardd Lloegr (5)
25. Offeiriad sy'n debyg o'ch saethu? (5)
27. Dewch i adnabod (8)
28. Un ddisglair? (8)
31. Ymwelydd (7)
32. Codi i swydd neu safle uwch (9)
33. Heb ddim glaw (3)
34. Dobi benwyn (3,1,4)
35. Person sy'n dod â rhai at ei gilydd (4)

### I LAWR

1. Un i bobl aflan? (9)
2. Un sy'n trechu (6)
4. Torri coed yn blanciau (8)
5. Set i dderbyn neges (5)
6. Ysgarmes (8)
7. Gwlad Nia Ben Aur ac Osian (3,2,3)
8. Un sy'n perthyn i'r dewin? (10)
9. Llymeitian diod feddwol (7)
10. Un sy'n cau yn y nos? (7)
15. Tras o linach gymysglyd (5)
17. O flodyn prydferth, '...o ble daethost ti?' (4,3,3)
20. Hwyl yn y draen anniben yn achosi gwaeledd (9)
22. Un â bygi wedi cael damwain ynddi? (8)
23. Un sy'n mynd i bobman (8)
24. Estron (8)
25. Pethau lliwgar sy'n tyfu yn y môr (7)
26. Cerrig mân (7)
29. Arwerthiant (6)
30. Gwisg flaen i ddiogelu'r dillad eraill (5)

Daeth dros ugain o atebion cywir croesair mis Hydref i law a hynny gan Nan Owen, Llanberis; Moreen Lennon, Llanberis; Olwen Jones, Bethel; Nansi Davies, Rhuthun; Eirwen Roberts, Tregarth; Catherine A. Jones a Jean Hughes-Jones, Rhiw; Dilys A. Pritchard-Jones, Abererch; M. Evans, Caernarfon; N. Hughes, Cwm-y-glo; Rosemary Williams, Tregarth; Margaret W. Roberts, Caernarfon; Chris Roberts, Llanrug; M.P. Jones, Clynnog; Tegid Roberts, Llanrug; Elfed Evans, Llanllechid; E.E. Jones, Rhoshirwaen; Jennie Williams, Clynnog; Eluned Jones, Trefor; Alice Griffith, Dinorwig; Rhiannon Pritchard-Jones, Clynnog ac Olwen Owen, Llanberis.

Enw Alice M. Griffith, Tan y

Bwlch, Dinorwig LL55 3ES ddaeth allan o'r het. Llongyfarchiadau a £5 i chi.



### Darluniau Dyfrlliw

Os am luniau o olygfeydd lleol am brisiau rhesymol gan arlunydd lleol, cysylltwch â:  
**Rhiannon Williams,**  
Gwylfa, Waunfawr  
(01286) 650125

## DYDDIADUR TACHWEDD

- Mer 1:** **PENISARWAUN.** Yr Urdd o 6.30 hyd 7.30pm.  
**Iau 2:** **DEINIOLLEN.** Cyfarfod y Chwiorydd yn Ebeneser. Sgwrs gan y Parch Trefor Lewis.  
**Gwe 3:** **WAUNFAWR.** Noson Tân Gwyllt am 6.30 ger y Ganolfan.  
**DEINIOLLEN.** Noson Tân Gwyllt am 6 ger yr Ysgol Feithrin.  
**Llun 6:** **DEINIOLLEN.** Cymdeithas Llandinorwig. Sgwrs gan Miss Moeller a Miss Mathews.  
**Maw 7:** **PENISARWAUN.** Cyngor Cymuned Llanddeiniolen am 7.15 o'r gloch.  
**LLANBERIS.** Y Gymdeithas Lenyddol yng Nghapel Coch am 7 o'r gloch. Mrs Nesta Jones, Pantglas 'Gyrfa Bryn Terfel'.  
**Mer 8:** **BETHEL.** Merched y Wawr yn cyfarfod yn Siop Grefftau Cae Coch, Llanberis.  
**Iau 9:** **BETHEL.** Cystadlaethau dawnsio ar gyfer yr Eisteddfod.  
**Sad 11:** **BETHEL.** Yr Eisteddfod Bentref am 12.30 a 6 o'r gloch.  
**Llun 13:** **WAUNFAWR.** Y Gymdeithas Lenyddol.  
**Iau 16:** **LLANRUG.** Eisteddfod Ysgol Brynrefail am 6.30pm.  
**Gwe 17:** **PENISARWAUN.** Ocsiwn Addewidion.  
**Llun 20:** **CAEATHRO.** Cyfarfod Blynnyddol Cymdeithas Cae Chwarae Caeathro.  
**Maw 21:** **BETHEL.** Y Gymdeithas Lenyddol.  
**Iau 23:** **PENISARWAUN.** Noson 'Body Shop' am 8 o'r gloch yn y Neuadd.  
**Gwe 24:** **DEINIOLLEN.** Merched y Wawr. Swper dathlu chwarter canrif o fodolaeth y Gangen.  
**PENISARWAUN.** Ffair Nadolig yn y Neuadd am 6.30pm  
**Llun 27:** **DEINIOLLEN.** Y Gymdeithas Lenyddol


### RHAGHYSBYSIAD

**RHAGFYR 3:** Gwasanaeth Carolau Merched y Wawr yng Nghapel Ebeneser, Caernarfon am 7.30 o'r gloch.

### RHODDION

£10: Mrs L.E. Owen, Llys Myfyr, Llanrug; Ffermwyr Ieuanc Caernarfon; Mrs P. James, Bryn Mair, Llanrug; Mrs Nesta Roberts, Baladeulyn, Stryd Newton, Llanberis.  
£5.00: Ernest a Margaret Ellen, Hafan, Porth y Gogledd, Deiniolen; Gwyndaf a Gwenlli, Maes-y-bryn, Pontrug; Di-enw, Llanrug; Mark ac Ann Marie, 1 Ffrwd Fadog, Brynrefail; Wilbert Davies, 7 Rhes y Graig, Llanberis; Er cof am Mrs C.E. Lewis, 13 Hafan Elan, Llanrug; Rhodd hefyd gan Mrs Beryl Jones, Plas Pengwaith er cof am Mr Robert William Jones.

Daeth rhoddion eraill a cheir cyfeiriad atynt y tro nesaf.



**GWYNANT  
PIERCE**

Cynyrchion Coed:-  
Gatiau, Ffensus ac ati  
am brisiau cystadleuol  
Uned 1, Fferm Bryn Afon  
**LLANRUG**  
ffôn: (01286) 650349  
(0589) 899901

## DODREFN PERKINS

(Safle'r hen Nelson)  
**CAERNARFON**

Ffôn (01286) 676 040

- \* Pob math o ddodrefn tŷ
- \* Cegin, 'stafell fyw, llofft
- \* Prisiau cystadleuol
- \* Danfon am ddim i holl ardal Bro'r Eco

**AGORIAD SWYDDOGOL**  
**GWENER, 10 TACHWEDD**  
**AM HANNER DYDD**  
**GAN JONSI, RADIO CYMRU**



# CHWARAEON

## O Lanbêr i ...

Amser edrych yn ôl fu hi yn Ysgol Brynrefail yn ddiweddar, ond, nos Wener diwethaf daeth mwy o glod i'r ysgol. Yn Stirling yn yr Alban, enillodd Marcus Orlik o Lanberis ei gap cyntaf i dîm -15 Cymru. I goroni'r noson, enillodd Cymru o 3-0, y tro cyntaf iddynt ennill yn yr Alban ers 21 mlynedd. Gyda llaw, dau o sêr y tîm hwnnw yn y 70au hwyr oedd Mark Hughes a Gary Speed. Yn wir, cyn i dîm Cymru adael am y gêm yn yr Alban, roedd Mark Hughes wedi galw i weld y tîm presennol yn eu canolfan ymarfer yng Nghaer.

Mae'n siŵr bod nifer ohonoch wedi gweld Marcus ar y teledu: cafodd gêm brysur iawn ar ochr dde, canol cae Cymru. Cyfeiriodd y sylwebydd yn aml at daclo cadarn y cochion a rhedeg diflino y chwaraewyr canol cae. Gall Marcus ymfalchïo yn ei berfformiad cyntaf ar y lefel yma. Dylai fod yn dra hyderus o gadw ei le yn y tîm ar gyfer eu gêm nesaf yn erbyn Lloegr yn y Drenewydd ar Dachwedd 3.

Eisoes mae bws o gefnogwyr o'r ysgol wedi ei threfnu. Os oes eraill ohonoch am deithio i'w gefnogi, mae'r gic gyntaf ar Barc Latham am 7.30pm. Gyda llaw, rwy'n siŵr y bydd gweld safon stadiwm Parc Latham yn agoriad llygaid i nifer o'r ardal yma. Gallwn weld mor salw yw Ffordd Farrar a'r 'hen' Oval o'u cymharu.

Yn 9 oed, dechreuodd Marcud chwarae i dîm dan 11 Llanberis, dan reolaeth Gwilym Evans. Yno cafodd ddau dymor fel amddiffynwr. Roedd nifer yn cyfeirio ato yn y dyddiau cynnar, yn enwedig o sylwi ar ei egni, ei ddoniau rheoli a'i agwedd gystadleuol.

Yn 11 oed, cafodd ei arwyddo gan dîm Caer, ac yno cael ei droi yn flaenwr. Dyma ddechrau'r cyfnod o ymroddiad - yn enwedig o gofio ei oed. Ymarfer yng Nghaer pob nos Iau, ac yna gemau ar y Sul. Bu yng Nghaer

### Tair Yn Eu Tro

Yn rhifyn Medi cyfeiriais at Aisla Orlik (Bl. 9) o Lanberis a'i champ yn ennill y Victrix Laudorum ym mabolgampau Ysgol Brynrefail, dair blynedd yn olynol. Braf oedd cael ymateb yn cofnodi fod y gamp yma wedi ei chyflawni o'r blaen. 'Seren' merched yr ysgol yn 1984, '85 ac '86 oedd Helen Mai Pritchard o Nant Peris. Erbyn hyn Helen Jones yw hi, ac yn byw yn Nantgwynant.

am dair blynedd ond yna, yn 14 oed, y symudiad mawr i glwb Lerpwl, a dilyn ôl troed Eifion Jones. Yn Lerpwl, mae'n ymarfer ddwy waith yr wythnos, gan lenwi safleoedd ar yr asgell. Rôl bwysig yw hon yn y gêm fodern, gyda dyletswyddau o amddiffyn yn ogystal ag ymosod. Daeth y 'cap' wedi sawl perfformiad disglair i dimau'r ysgol, Gwynedd, Eryri a Gogledd Cymru.

A'r diwrnod, neu'r noson fawr yn Stirling? 'Nerfus, yn naturiol,' meddai Marcus, 'ond yna'r wefr o gerdded allan yn y crys coch, clywed y dorf a gwybod fy mod yn cynrychioli fy ngwlad.'

Roedd yn hynod falch fod ei rieni a'i chwiorydd, Gemma ac Aisla, yno i'w gefnogi. Cyfeiria Marcus hefyd at yr ysbryd da yn y garfan, gyda phawb yn cymysgu. Bydd cryn edrych ymlaen at gêm Lloegr, a dymunwn yn dda i un arall o ysgol Brynrefail a wisgodd grys a chap coch ei wlad.



## O Gaeathro i ...

Gyda balchder rwyf yn ysgrifennu'r colofnau y mis yma. Y mae croniclo llwyddiant ieuenctid yn fy mhlesio'n arw.

Mae'r llwyddiant a ddaeth i ran Tom Evison o Gaeathro yn unigryw i'r cylch yma. Mae Tom yn gricedwr amryddawn iawn a chafodd sylw yn y colofnau yma'n rheolaidd. Ond nawr, mae wedi cyrraedd yr uchelfannau. Mae wedi ei ddewis i garfan criced Lloegr -17. Dewisir y tîm yma allan o'r holl chwaraewyr sy'n cynrychioli eu siroedd yn Lloegr, ac o garfan -16 Cymru. Y mae nifer o'r chwaraewyr yma eisoes yn gysylltiedig â siroedd dosbarth cyntaf fel Swydd Efrog ac Essex. Y tymor nesaf bydd Tom yn cynrychioli tîm Morgannwg -17. Mae'n fwriad ganddo i chwarae ar lefel dosbarth cyntaf ac yn sicr mae rhai o'r farn bod yr adnoddau ganddo.

Bu Tom yn chwarae i dimau ieuenctid Bangor ers pan yn 9 oed: yn droellwr llaw chwith addawol. Hefyd fel batiwr yn meddiannu amrediad eang o shots. Roedd yn chwaraewr hyderus erioed, ac yn heriol iawn fel bowliwr. Chwaraeodd i dimau dynion y clwb yn ifanc iawn, a bu hyn yn fantais iddo. Elwodd o bolisi datblygu ieuenctid yn y clwb, ac yn sicr o gael chwarae gyda chwaraewyr o

lefel prawf fel Andy Flower o Zimbabwe a Kerry Womersley o Seland Newydd. Trwy'r adeg bu ei rieni yn gefnogol iawn, ac elwodd o ddoniau hyfforddi arbennig Peter, ei dad.

Daeth i sylw dewiswyr Cymru -14, a chwaraeodd 6 gêm. Roedd yn aelod blaenllaw o dîm -15 Eryri a enillodd bencampwriaeth ryng-sirol Cymru am y tro cyntaf. Hwn oedd ei dymor euraidd - chwaraeodd 9 gêm i dîm Cymru -15, a thrwy gipio 36 wiced, torrodd record Robert Croft.

Ymlaen wedyn i dîm -16 Cymru, dan reolaeth yr hyfforddwr deallus, Tom Cartwright. Bu'r tîm yma'n llwyddiannus iawn y tymor diwethaf, gan guro nifer o siroedd 'mawr' Lloegr - 32 o wicedi i'r troellwr medrus y tro yma. Os yw'r Mathemateg yn gywir, chwaraeodd Tom eisoes 34 gêm i'w wlad - tipyn o record. Gan gofio fod y mwyafrif llethol o'r gemau yma yn ne Cymru a Lloegr, gall rhywun ddychmygu y miloedd o filltiroedd a deithiodd - a'r gost i'w rieni.

Yma, yng Nghynghrair y Gogledd mae'n dipyn o seren. Yn ystod ei ddau dymor yn y tîm cyntaf cipiodd 74 wiced. I goroni'r cyfan cipiodd Bangor y bencampwriaeth a thri o'r sêr



oedd Tom, Nic Ellis a Glyn Hemsworth. Tri o fechgyn 16 oed a'r tri yn aelodau rheolaidd o dîm Cymru. Dymunwn yn dda i Tom felly pan fydd yn ymuno â charfan Lloegr yn Lilleshall ddiwedd y mis yma. Gobeithio y gall yntau ddilyn ôl troed Mathew Maynard o'r parthau yma i'r lefel uchaf.

Da iawn Tom. Da iawn, Marcus. Dau chwaraewr dawnus iawn, ond dau a'u traed yn soled ar y ddaear a gwen ar eu hwynebau.